

SBARC Moli'n tanio fflam ei huchelgais.



Deuddeg oed yw Moli Wyn Pritchard o Lanrug. Ei huchelgais erioed oedd bod yn actores neu blismones!

Yn dilyn ei llwyddiant diweddar, mae'r gogwydd yn bendant wedi troi tuag at fyd actio!

Er mai dau dymor yn unig sydd er iddi ymuno a Chwmni SBARC yng Nghaernarfon, cafodd wrandawiad gyda Chwmni 'It's My Shout' Caerdydd, ar gyfer eu cynhyrchiad haf.

Mae 'It's My Shout' yn gwmni cynhyrchu ffilmiau drwy gynllun hyfforddiant sy'n datblygu talent. Maent yn fwyaf adnabyddus am eu cyfresi ffilmiau byr ac eleni fe gynhyrchwyd naw ffilm, tair yn y gogledd – Bangor, Dyffryn Nantlle a Rhuthun. Mae y tim yn gweithio hefyd gyda ysgolion, colegau a grwpiau i roi addysg am groesdoriad o ddisgyblaethau pwysig ym myd ffilm. Rhai o'r actorion adnabyddus â chysylltiad â'r cwmni yw Richard Harrington, Tom Cullen (Downton Abbey), Aneurin Barnard ac Amy Morgan.

Cafodd Moli ei dewis i'r brif ran yn y ffilm 'Plu Oen' wedi ei seilio yn Nyffryn Nantlle. Ar 12fed o Hydref, gwahoddwyd hi i Gaerdydd i'r Dangosiad Cyntaf (Premier) o'r naw ffilm yn Stadiwm y Mileniwm. Roedd yn brofiad anhygoel, a'r carped coch allan hefyd! O'r actorion i gyd, cafodd ei henwebu am y wobr Best Leading Actress.

Ond ar 14eg Hydref yn Galeri, Caernarfon, roedd y Noson Dangosiad Cyntaf Gwobrau Gogledd Cymru. A'r tro hwn, enillodd Moli y Tlws Gwobrwyo Blynyddol 2014 am y Newydd Ddyfodiad gorau!

Bydd y ffilm yn cael ei darlledu ar S4C yn fuan ym mis Tachwedd. Gwyliwch allan amdani. Mae'r cyfle yma yn agor drysau i Moli i fynd ymlaen yn y byd actio. Llongyfarchiadau mawr i ti a phob dymuniad da (Rhaid dweud fod Megan, chwaer Moli yn y ffilm hefyd.)

Dymuna Moli ddiolch i Rhian Cadwaladr, Sbarc, Galeri; i Roger Burnell, Cyfarwyddwr 'It's My Shout' ac yn arbennig i'w rhieni, Nia ac Emyr Pritchard, sy mor falch o'i llwyddiant.

Ati eto...



Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Rhagfyr	Tachwedd 16	Tachwedd 28	Caeathro
Nadolig/Ionawr	Rhagfyr 7	Rhagfyr 19	Ysgol Brynrefail

**RHIF 426
Tachwedd 2014**

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

LLYTHYRAU

Grwp Cynefin

Grant Datblygu Cymunedol

Ysgrifennaf atoch i godi ymwybyddiaeth eich darllenwyr am Grantiau Datblygu Cymunedol Grŵp Cynefin.

Mae'r grant ar gael i grwpiau cymunedol yn yr ardal ble mae Grŵp Cynefin yn gweithio, i wella ansawdd bywyd cymunedau lleol.

Byddai unrhyw waith fyddai yn gwella, hwyluso a gwneud ardal neu gymuned yn fwy pleserus i fyw ynddi yn gymwys.

Yr uchafswm grant ar gael i un grŵp yw £500.

Os yw'r grŵp eisiau sgwrs am eu syniad neu gymorth i lenwi ffurflen gais mae croeso iddynt gysylltu gyda fi drwy unai ffonio 889222 neu e-bostio Bethan.thoms@grwpcynefin.org neu fy nghyd-weithiwr, Ben Gregory, ar 889214 neu ben.gregory@grwpcynefin.org.

Yn gywir

Bethan Thomas,

Swyddog Cymuned

Peiriant Gweu Sanau

Gweddwr'r Rhyfel Mawr

Annwyl Olygyddion

Mae teulu William Robert ac Ellen Jones, gynt o'r Foel, Gallt y Foel, Deiniolen, yn awyddus i wybod hanes peiriant gweu sanau a oedd yn yr ardal hyd yn ddiweddar iawn. Lladdwyd William Robert yn y Rhyfel Mawr a'r iawndal a dderbyniodd Ellen, ei weddw, oedd peiriant gweu sanau i fagu ac i gynnal ei theulu. Os gŵyr rhwyun rywbeth o'i hanes, oes modd iddynt gysylltu â'r wasg os gwelwch yn dda – Gwasg Carreg Gwalch, Llanrwst – 01492 642031 neu myrddin@carreg-gwalch.com

Yn gywir

Myrddin ap Dafydd

Yn ystod y mis aeth heibio

..... daeth y newyddion am y cwtogi eto fyth yng nghyllideb y cynghorau sir drwy Gymru gyfan. Buan iawn roedd y Toriaid yn honni fod Llywodraeth Lafur Cymru yn cwtogi llai ar y cynghorau a reolir gan eu plaid eu hunain, tra'n cosbi cynghorau gwledig yn y canolbarth a'r gogledd. Ac yn sgil y datganiad mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu ymgynghori a'r trigolion ynglyn a beth sy'n bwysig iddyn nhw o fewn eu cymunedau (gweler hysbyseb ar dudalen 30). Yn anffodus i drigolion bro'r "Eco", mae dyddiad yr ymgynghoriad wedi bod ers 20fed o Hydref yng Nghaernarfon, a rhaid i chi deithio i Fangor ddiwedd y mis i 'ddweud eich dweud' – neu i

drefi pellach o'r fro. Da o beth fyddai i Gyngor Gwynedd ofalu bod eu hysbyseb yn cyrraedd papurau bro y sir mewn da bryd ar gyfer eu cyhoeddi.

... enillodd UKIP eu sedd etholiadol gyntaf yn San Steffan – oddi ar y Toriaid, a dod o fewn trwch blewyn i ennill ail sedd oddi ar Lafur. Nid yw'n ymddangos fod unrhyw blaid yn ddiogel rhag yr ymchwydd yn eu poblogrwydd, ac mae eu gobeithion yn uchel mewn o leiaf ddwy sedd etholiadol yng Nghymru.

... daeth y newyddion syfrdanol fod yr Wyddfa yn uwch o un metr nac a ddangosir ar y mapiau swyddogol. Ychydig gamau" ychwanegol i redwyr Ras yr Wyddfa fis

RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru**

£20: Er cof am Yvonne gan Malcolm, Mark a Fiona Pitts, Y Gelli, Llanrug.

£10: Mair G. Jones, Tan y Buarth, Bethel; Eifion a Gwyneth Roberts, Swŷn Y Gwynt, Ffordd Padarn, Llanberis; Teulu Rhiw Goch, Clwt y Bont; Bryn a Kim Evans, Brynrefail.

£5: Kathryn Jones, Y Ddolwen, Bethel; Mrs Jennie Owen, 7 Hafan Elan, Llanrug; Monica, Deiniolen.

Dymuniadau gorau i Alwena Owen, Teipydd yr "Eco" yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd. Gofalodd fod deunydd y rhifyn hwn wedi ei gwblhau fel arfer tra'n aros dros-dro gyda'r ferch yn Rhosbach.

Gorffennaf nesaf! Ond ceir eglurhad digon rhesymol: mai'r garnedd ar y copa sy'n creu'r fetr ychwanegol, ac mai gwaith artiffisial ydyw. Dywedir na fydd mesuriadau'r mapiau yn cael eu newid.

... yn ol y Gymdeithas Ddaearegol, mae dau safle o fewn ein bro ymhlith y cant lle mwyaf diddorol o ran daeareg yng ngwledydd Prydain. Mewn arolwga drefnwyd gan Bwyllgor Cadwraeth y Gymdeithas Ddaearegol yn Llundain, roedd Chwarel Dinorwig yn 26ain, a'r Wyddfa yn 47fed. Yn hytrach na dringwyr, cerddwyr a rhedwyr, tybed a'i daearegwyr gyda'u morthwylion bach a fydd yr haid ymwelwyr nesaf i gyrraedd y fro.



Lansio Gwefan yr “Eco”.

Mae’n rhaid fod nos Iau, 16eg Hydref wedi bod yn hynod o brysur i’r mwyafrif o drigolion y fro, oherwydd prin ddwsin yn unig oedd yn rhydd o ddyletswyddau eraill i fynychu noson lansio gwefan yr “Eco”. Ac ar wahân i’r dwsin ddaeth at ei gilydd yn Neuadd Goffa Bethel, cafodd pawb arall golled. Mewn blynyddoedd i ddod, prin iawn fydd y rhai all ddweud “roeddwn i yno”.

Ond na hidiwch! Os oes gennych fynediad i’r wê, gallwch gael mynediad i’r wefan ar ecorwyddfa.co.uk

Cofiwch mai proses sy’n datblygu yw’r wefan. Mae holl ôl-rifynnau’r papur o Chwefror 1976 ymlaen i’w cael ar y safle, ond ni fydd y rhifyn cyfredol yn cael ei arddangos am dri mis wedi’r dyddiad cyhoeddi. Hyd yma, nid yw’r miloedd o luniau sydd wedi ymddangos yn y papur

www.ecorwyddfa.co.uk

Cyfarfod Blynyddol 2013/14

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol eleni yn y Mynydd Gwefru, Llanberis nos Lun Hydref 13eg. Y gobaith oedd y byddai newid lleoliad yn denu mwy i’r cyfarfod ond siomedig iawn oedd y nifer eto eleni gyda 6 o’r ffyddloniaid yn bresennol ac un ymddiheuriad.

Cafwyd adroddiad gan y gwahanol swyddogion

Golygydd – adroddodd Dafydd fod pethau yn mynd yn dda ac nad oedd prinder deunydd i’w gynnwys yn yr Eco o gwbl. Y prif broblem ydi deunydd yn cyrraedd yn hwyr a lluniau liw sydd ddim o ansawdd digon da i’w argraffu yn y papur.

Er fod canmoliaeth mawr i’r Eco yn ddiweddar nid yw’r cylchrediad wedi codi, felly penderfynwyd ymgyrchu i gynyddu’r cylchrediad drwy ddsbarthu copi am ddim a gwahodd pobl i osod archeb rheolaidd.

Gwerthiant siopau –adroddodd Hefin fod gwerthiant drwy siopau’r fro a Chaernarfon wedi cynyddu er yn amrywio o fis i fis, ar gyfartaledd mae’r gwerthiant tua 175 rhifyn y mis.

Swyddog Hysbysebu – Diolchwyd yn gynnes i Eifion sydd yn rhoi’r gorau i’w swydd ddiwedd y flwyddyn ar ôl bron i 8 mlynedd. Adroddwyd fod unigolyn wedi rhoi ei henw ymlaen i gymryd drosodd – ceir mwy o fanylion cyn i Eifion ymddeol. Adroddwyd fod y sefyllfa ynglŷn â hysbysebion yn iach ond fod y cyrff cyhoeddus yn hysbysebu llai. Penderfynwyd cadw prisiau hysbysebu ar y lefel bresennol a diolch i’r cyfeillion sy’n hysbysebu ac yn cefnogi’r Eco.

Trefnydd Arianol –cyflwynodd Goronwy fantolen 2013/2014 (gweler isod) gan adrodd fod sefyllfa ariannol yr Eco yn weddol iach ond gyda costau yn debygol o godi eleni. Cadarnhawyd y penderfyniad i gynyddu pris yr Eco i 70c y rhifyn neu £7 am flwyddyn o rifyn Ebrill 2015 ymlaen ac y byddem yn parhau gyda 8 tudalen liw.

Trefn Bwndelu – diolchwyd i Marian am ei chyfraniad diflino yn trefnu bwndelu bob mis. Er fod cost yn codi o’r drefn fod y Wasg yn plygu, roedd hyn yn ysgafnhau’r baich ar y pentrefi ac yn golygu fod y papur yn edrych yn fwy profesiynol.

Ethol Swyddogion – Gyda diolch o galon i holl gefnogwyr a gwirfoddolwyr yr Eco, penderfynwyd ail ethol y swyddogion a’r gohebwy.



dros bron i ddeugain mlynedd, i’w cael ar y wefan; ond yn raddol, fe fyddant yn ymddangos.

Criw bychan iawn sydd wedi bod wrthi yn paratoi ar gyfer y cam hwn yn hanes ein papur (tra’n gofalu fod yr “Eco” yn dal i ymddangos yn rheolaidd). Byddai’r pwyllgor presennol yn falch iawn o dderbyn unrhyw gymorth, yn enwedig gan rai sydd â diddordeb mewn gwaith cyfrifiadurol. Cysylltwch ag unrhyw un o’r swyddogion.

Yn y cyfamser, mwynhewch y wefan!

Incwm a Gwariant 2013-14			
Incwm			
Gwerthiant			6945.99
Hysbysebion			10575.00
Dosbarthu taflenni			200.00
Rhoddion			1830.50
Grantiau			
Llywodraeth Cymru		1870.00	
Cynghorau Cymuned			
Llanberis		500.00	
Llanddeiniolen		300.00	
Llanrug		700.00	
Waunfawr		200.00	3570.00
Cystadleuaeth Tlws yr Eco			-10.00
Llôg Banc			8.16
			23119.65
Gwariant			
Offer			166.49
Argraffu, plygu a chasglu			13642.08
Dylunio			3270.00
Teipio			2860.00
Post			636.90
Papur, amlenni ayyb			0.00
Costau Banc			0.00
Costau cyfarfodydd			0.00
			20575.47
"Elw" Masnachu			2544.18
Cynllun Cyflogi'r Eco			
Cyflog	5986.49		
Yswiriant Gwladol	165.13		
Yswiriant yr Eco	496.56		
Prynu disgiau ayyb	96.44		
Rhentu Ystafell	1000.00	7744.62	
Llai Ad-daliad - Cynllun Twf Swyddi	6102.74		
Incwm	24.90	6127.64	1616.98
"Elw" am y flwyddyn			927.20
			3



CÔR CYNFI

Nos Wener y 10fed o Hydref, bu'r côr yn canu mewn noson gyda'r Sêr yn Galeri yng Nghaernarfon er budd Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Cafodd y côr gyfle i rannu llwyfan hefo Annette Bryn Parri, Rhys Meirion, Erin Wyn, Côr Telynau Ysgol Syr Hugh Owen a Meinir Gwilym. Roedd yn noson hynod lwyddiannus a phawb o'r côr wedi mwynhau'r profiad yn fawr. Mae'r côr yn parhau i ymarfer yn Festri Capel Ebeneser, Deiniolen, am 7.00 ar nos Iau ac mae croeso i aelodau newydd ymuno.

Bydd y rhaglen a recordiodd y côr gyda Wyn Evans i'w gweld ar S4C ar yr 8fed o Dachwedd.



Clwb Ieuenctid Deiniolen

Mae aelodau'r clwb wedi bod yn brysur yn ddiweddar yn addurno ffenestri Tŷ Elidir gyda thema noson Calan Gaeaf, maent hefyd yn cyd-weithio gyda pwyllgor Gŵyl Deiniolen a'r Cylch er mwyn tacluso oddi amgylch y gofeb cyn gwasanaeth Sul y Cofio ym mis Tachwedd. Mae'n dda gweld ein pobl ifanc yn cymeryd diddordeb yn eu pentrefi, daliwch ati.

Ysgol Gwaun Gynfi



Ysgol Iach – Wedi cwblhau Cam 3.



Eco-ysgol – Baner Werdd wedi ei hennill



Gerddi'r ysgol – gwobr Arian Ysgolion Gwynedd a Môn.




Gwaith Celf – Rhian a Lynne – waliau'r ardd.



Beryl wedi gorffen.

William John Lewis, Tŷ Capel, Ebenezer



Dewyrth Wil. gafodd ei glwyfo yn y Rhyfel Mawr, hefo Taid Cynfi a John.

Anafwyd yn y Rhyfel Mawr. Bu fyw am 30 mlynedd heb allu symud o gwbl ar ôl colli ei goesau a'i freichiau, a'i fam a'r teulu yn gofalu amdano.

Gwnaeth ei frodyr 'goets' i fynd ag o allan am dro, gan ei wthio eu hunain, nes iddynt gael caseg fach i'w dynu!



Yn y lluniau mae gyda'i frawd, John, a'i frawd yng nghyfraith, Robert Lloyd Jones.

Yn y llall mae ei nai, Jackie Lewis, yn 16 mlwydd oed, yn mynd ag o allan.

Sul y Cofio Cynhelir gwasanaeth Sul y cofio eleni ar fore Sul Tachwedd 9fed am 9.25 ger y gofgofofn yn y pentref.


Lois Regan Dymunir pob llwyddiant i Lois sydd wedi ymuno â chlwb pêl-droed Reading yn ddiweddar, mae hefyd wedi cynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth ddiweddar yn Latvia. Da iawn chdi.

Dymuna Monica ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau arian ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig.

Y Gymdeithas Undebol Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd nos Lun, Medi 22 o dan lywyddiaeth y Parchedig John Pritchard a chroesawyd Annette Bryn Parri atom. Cawsom noson o sgwrs a chàn ganddi wrth sôn am rai o'r caneuon sy'n gyfarwydd i ni ers cyfnod y 60au. Wedi i Annette ddweud gair neu ddau am y caneuon cawsom eu clywed yn cael eu canu ganddi ar y piano. Diolchwyd iddi ar y diwedd gan Mr John Llywelyn Williams. Mae tymor amrywiol o gyfarfodydd wedi eu trefnu ac estynnwn groeso cynnes i bwy bynnag ohonoch sydd ag awydd i ddod atom o'r newydd.

Diolch Dymuna Fred a Gloria Thomas, 35 Rhydfadog ddiolch o galon i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

Ysgol Gwaun Gynfi



Logo'r ysgol

Mae'r plant wedi dewis logo i'r ysgol sef llun chwarelwr yn hollti llechi.

Maent wedi dewis y logo yn dilyn llawer o ymweliadau i'r ysgol y llynedd wrth drafod yr ardal leol a datblygiad pentref Deiniolen.

Dywedodd Mr Gwilym T Williams na fuasai pentref Deiniolen yn bod heb y chwarel felly dyma fynd ati i ddewis y logo.

Mae'r plant a'r rhieni wedi dweud eu bod yn hoffi'r logo yn fawr iawn ac mae'n edrych yn ddeniadol iawn ar eu gwisgoedd ysgol.

Diolchgarwch

Cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch dan ofal plant yr ysgol Sul ar Hydref 19eg. Thema'r

gwasanaeth oedd diolch am ddoniau a tharddiad y bwydydd rydym yn ei fwyta pob dydd,

cawsom unawd ar y piano gan Ella, unawd ar y corn gan Elin Dafydd, styntiau sgwter gan Jac a Gwion a darlleniadau gan Prys a Glain, y cyfeilydd oedd Catrin Llewelyn. Cafwyd gwasanaeth hynod fendithiol a diolch i bob un a gymerodd ran.

Plannu yng ngardd yr ysgol

Mae'r plant wedi bod yn brysur hefyd yn plannu llysiau a blodau yng ngardd yr ysgol. Cafwyd canmoliaeth fawr eto i'w gwaith gan y rhieni.

Gwaith Celf

Yn ogystal â datblygu'r ardd mae'r plant wedi bod yn datblygu eu gwaith celf fel y gellir gweld yn yr ardd. Mae llawer iawn o rieni wedi galw i mewn i longyfarch y plant ar eu gwaith.

Baner Werdd

Mae disgyblion yr ysgol wedi bod yn llwyddiannus gyda'u gwaith yn datblygu'r ysgol yn Ysgol Werdd ac yn Eco-ysgol.

Rydym eisoes wedi ennill Gwobr Aur Ysgolion Gwyrdd Gwynedd a Môn a bellach mae'r plant wedi sicrhau eu bod wedi ennill Baner Werdd Eco-Sgolion Gwynedd a Môn.

I ennill y Faner Werdd maent wedi datblygu gwaith mewn 8 maes – ailgylchu a gwaredu sbwriel, arbed ynni, arbed

dŵr, datblygu tir yr ysgol a'r amgylchedd, lleihau gwastraff, trafnidiaeth, dinasyddiaeth byd-eang, byw'n iach.

Ysgol Iach

Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus yng Ngham 3 Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd ac felly wedi cwblhau'r holl gamau ar gyfer cael ein cydnabod fel ysgol sydd yn datblygu iechyd a lles yr holl ddisgyblion a'r staff.

Ymdeoliad Mrs Beryl Griffiths o Ysgol Gwaun Gynfi

Ymdeolodd Mrs Beryl Griffith ar ôl 37 o flynyddoedd yn dysgu yn Ysgol Gwaun Gynfi.

Gwelir Fflur o'i dosbarth yn cyflwyno blodau iddi. Hefyd yn y llun mae Mrs Andrea Williams, un o staff yr ysgol oedd yn nosbarth Mrs Griffith amser maith yn ôl!!

Derbyniodd Mrs Griffith anrhegion oddi wrth staff yr ysgol i gyd, y plant, cyn-ddisgyblion, y llywodraethwyr a llu o gardiau oddi wrth y plant. Rydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Griffith am ei gwasanaeth clodwiw i'r ysgol dros y blynyddoedd.

Bydd Mrs Sarah M Jones yn cymryd gofal o'r dosbarth cyn hanner tymor mis Hydref.

Eisteddfod Bethel 2014



Cynhaliwyd yr Eisteddfod Ddydd Sadwrn, Hydref 11eg, 2014. Y beirniaid oedd Angharad Jones, Glasinfryn (Cerdd) a Ken Hughes, Pentrefelin (Llefaru). Arweinyddion y prynhawn oedd Manon Elwyn, Nia Guillemin a Sharon Parry gyda Manon Gwynedd a Ffion Owen yn arwain cyfarfod yr hwyr. Y cyfeilyddion oedd Helen Morris, Rhydian Price, Gethin Griffiths, Sion Elwyn, Manon Elwyn, Deilwen Hughes a Manon Gwynedd. Rhianwen, Ffion Haf ac Elen oedd yn dosbarthu'r rhubannau i'r plant ieuengaf.

Canlyniadau:

LLEFARU

Cylch Meithrin: 1. Pawb yn cyd lefaru Sali Mali: Dosbarth Meithrin: 1. Lea 2. Ela 3. Owain: Blwyddyn Derbyn: 1. Lili Mai 2. Riley 3. Roxy: Blwyddyn 1: 1. Llyr 2. Gruff 3. Anna Rhod: Blwyddyn 2: 1. Ifan Aled 2. Rhys 3. Cadi: Blwyddyn 3 a 4: 1. Elis ac Iddon 2. Gwawr 3. Iago: Parti Llefaru Blwyddyn 1, 2 a 3: 1. Cwl Dwds Bethel 2. Parti Rapsgaliwns: Parti Llefaru Blwyddyn 4, 5 a 6: 1. Y Walis 2. Stwnsh: Blwyddyn 5 a 6: 1. Ben 2. Haf 3. Elis a Huw Owen: Blwyddyn 7, 8 a 9: 1. Gwennllian 2. Celt: Blwyddyn 10 - 13: 1. Gwion Wyn 2. Rhianwen: Parti Llefaru Uwchradd: 1. Parti Mari: Darllen ar y Pryd Blwyddyn 7 - 13: 1. Hari 2. Sion Emlyn 3. William: Sgets (agored): 1. Bedwyr a Dylan 2. Syrjyri Doctor 3. Pigiad

CANUAC OFFERYNNOL

Cylch Meithrin: 1. Pawb yn cyd-ganu Fy Ffrindiau: Dosbarth Meithrin: 1. Owain 2. Lleucu 3. Lea: Blwyddyn Derbyn: 1. Cadi 2. Lili Mai 3. Max: Blwyddyn 1: 1. Gruff 2. Anna Rhodd 3. Nia: Blwyddyn 2: 1. Ifan Aled 2. Rhys 3. Cadi: Blwyddyn 3 a 4: 1. Gwawr ac Owain Roberts 2. Iago 3. Hannah: Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 1 - 6: 1. Gwawr: Parti Canu Blwyddyn 1, 2 a 3: 1. Cwl Dwds Bethel 2. Parti Rapsgaliwns: Unawd Alaw Werin Blwyddyn 1 - 6: 1. Gwawr 2. Beca 3. Llyr: Unawd piano Blwyddyn 4, 5 a 6: 1. Elen 2. Lowri 3. Mari: Unawd Offeryn Cynradd: 1. Elen 2.

Iddon 3. Huw Owen: Parti Canu Blwyddyn 4, 5 a 6: 1. Y Nyrtars 2. Minions Bach Bethel: Unawd Blwyddyn 4, 5 a 6: 1. Cerys 2. Erin 3. Milly a Cai: Unawd Piano Blwyddyn 7, 8 a 9: 1. Owain 2. Gwennllian 3. Ioan: Unawd Blwyddyn 7, 8 a 9: 1. Emma 2. Ywain 3. Elin: Deuawd Cynradd ac Uwchradd: 1. Gwennllian a Heledd 2. Beca a Gwawr; Offeryn heblaw Piano Blwyddyn 7, 8 a 9: 1. Owain 2. Ywain: Unawd Alaw Werin Blwyddyn 7 - 13: 1. Eiry 2. Gwennllian 3. Heledd: Unawd Cerdd dant Blwyddyn 7 - 13: 1. Heledd: Unawd Blwyddyn 10 - 13: 1. Eiry, 2. Sion Emlyn a Gwion Wyn: Unawd piano Blwyddyn 10 - 13: 1. Gwion Wyn 2. Elen: Unawd offeryn heblaw piano Blwyddyn 10 - 13: 1. Elen: Grwp Offerynnol Blwyddyn Cynradd / Uwchradd 1. Sion Emlyn a Wiliam: Càn Gyfoes: 1. Gwion Wyn 2. Y Galw: Parti Canu Uwchradd: 1. Safwn yn y Bwlch 2. Hogie Fflat Huw Puw

ENILLWYR Y TLYSAU

Cwpan Arian (llefaru Cynradd): Ben Evans
Cwpan Konica (llefaru Uwchradd): Gwion Wyn
Tlws Coffa Siân Robinson (darllen ar y pryd): Hari Ifans
Tlws Parc y Wern (Parti llefaru Cynradd): Y Walis
Tlws Coffa Goronwy Jones (lleisiol Cynradd): Gwawr Hughes-Owen
Tlws Coffa W.G. Ellis (piano Cynradd): Elen Llestyn
Tarian Ael y Bryn (offerynnol Cynradd): Elen Llestyn
Tlws Coffa Mrs Joan Foulkes (lleisio Uwchradd): Eiry Price
Tlws Coffa John M Williams: (piano Uwchradd): Gwion Wyn
Tlws Teulu Penparc (offerynnol Uwchradd): Owain Llestyn
Tlws Llwyn Eithin (Parti Canu Cynradd): Y Nyrtars
Tlws Coffa Annie E Williams (Parti Llefaru Uwchradd): Parti Mari
Cwpan Teulu Llain yr Ardd (Rhyddiaith Agored): Sion Elwyn
Tlysau bach i'w cadw am byth yn rhoddedig gan Siencyn a Glenys Griffiths, Wil a Nora Parry, Brian ac Eirlys Sharpe, Elwyn a

Gwyneth Jones, Rita Williams, Menna Williams, Alun a Sheila Foulkes, Huw a Nan Jones, Gareth a Rhian Hughes, Margaret a Phillip Williams, Arwel a Iola Jones, Deilwen ac Elwyn Hughes.

SEREMONI'R CADERIO

Prif Lenor Cynradd oedd Joe Bennet a'r Prif Lenor Uwchradd oedd Alaw Prys. Y llenor cynradd yn derbyn Tlws y Gymdeithas Lenyddol a thlws i'w chadw am byth yn rhoddedig gan Maldwyn John a Manon Gwynedd. Y llenor Uwchradd yn derbyn Tlws Merched y Wawr er cof am Miss Maggie Owen, a thlws i'w chadw am byth yn rhoddedig gan Gareth a Manon Griffiths.

Yr oedd yr Orsedd o dan ofal medrus Mrs Rita Williams. Elis Jones a Huw Owen oedd Ceidwaid y Cledd, Richard Efans yn chwythu'r Corn Gwlad, Gwion Wyn yn canu Càn y Cadeirio a Manon Gwynedd yn cyfeilio. Cyrchwyd y llenorion i'r llwyfan gan Ben, Dylan, Lois a Lowri gyda Dylan, Huw, Chloe a Morgan yn cyflwyno'r tlysau. Elan ac Elen oedd yn cyfarch y llenorion gyda phenillion wedi eu cyfansoddi gan y beirniad Llên, Ifan Prys.

Canlyniadau Cystadlaethau Llên. Dosbarth Meithrin (ysgol): 1. Olly 2. Ilias 3. Caio. Dosbarth Derbyn: 1. Efa Medi 2. Steffan 3. Cadi: Blwyddyn 1: 1. Llyr 2. Erin 3. Sara. Blwyddyn 2: Ifan 2. Elin 3. Cadi. Blwyddyn 3: 1. Elis, 2. Gwennllian 3. Sophey. Blwyddyn 4: 1. Mari Jones 2. Iddon 3. Gwawr. Blwyddyn 5: Joe 2. Cerys 3. Millie. Blwyddyn 6: Lois 2. Chloe 3. Lowri. Blwyddyn 7-9: 1. Heledd 2. Elan 3. Owain. Blwyddyn 10 - 13: 1. Alaw Prys 2. Moli 3. Ciron Hywel. Cystadleuaeth y Llinell Goll: 1. Helen Morris 2. Helen Morris 3. Rita Williams.

Cystadlaethau Celf a Chrefft.

Y beirniad oedd Mrs Non Huws, Ysgol Felinheli. Braf oedd gweld ymateb da i rai cystadlaethau newydd megis gwneud anifail allan o lysiau a/neu ffrwythau, addurno chwech o gacennau bach a gwneud cerdyn cyfarch

Tlws Celf Gwaith Cynradd (wedi ei wenud yn yr ysgol): Bryn Hughes

Tlws Celf Gwaith Cynradd (wedi ei wneud yn y cartref): Cai Moss
Tlws Celf Gwaith Uwchradd (wedi ei wneud yn y cartref): Hari Ifans

Noson Ddawnsio - 14.10.2014

Cynhaliwyd noson o ddawnsio llwyddiannus iawn yn y Neuadd Goffa. Y beirniaid oedd Hannah Norris, Bae Trearddur. Trefnwyd y noson gan Sasha a Zoe Williams gyda chefnogaeth Elan Llwyd, Elli Jones a Lowri Jones yn arwain.

Tlws Teulu Treflys a thlws bychan i'w chadw am byth wedi ei rhoi gan Enid a Meurig Huws - Milly India

Tlws Teulu Cefn Ffrwd a thlws bychan i'w chadw am byth wedi ei rhoi gan Rhys a Sian Harris - Lowri Jones

Dawnsio Disgo Unigol Blwyddyn 3 ac Iau: 1. Efa ac Erin 2. Demi: Blwyddyn 4, 5 a 6: 1. Millie India 2. Zara 3. Elain Llwyd: Blwyddyn 7 - 13: 1. Lowri 2. Elan: Dawnsio disgo par Blwyddyn 3 ac Iau; 1. Roxy ac Efa: Grwp Dawnsio Disgo / Creadigol: Blwyddyn 3 ac Iau 1. Grwp Siwan 2. Grwp Anna Jên a Loshin Pinc: Blwyddyn 4, 5 a 6: 1. Grwp Lois 2. Grwp Zara; Blwyddyn 7 - 13: Grwp Elan
Diolch i bawb a fu'n cystadlu; i'r beirniaid am eu hamser, eu cyngor, a'u cwmni; i Athrawon a Staff yr Ysgol Gynradd a'r Cylch Meithrin am eu cefnogaeth gyda'r cystadlaethau llên, arlunio, canu a llefaru unigol; I Adran Gymraeg Ysgol Brynrefail am eu cefnogaeth gyda'r gwaith llên Uwchradd; I'r holl wirfoddolwyr am ddod ymlaen i roi eu hamser prin i hyfforddi, arwain a chyfeilio ac i rieni am gyrchu eu plant yn ôl ac ymlaen i'r ymarferion. Diolch arbennig i swyddogion y Pwyllgor am sicrhau bod yr Eisteddfod wedi rhedeg yn esmwyth; i ffrindiau a busnesau lleol am roddion tuag at y raffl a chostau'r Eisteddfod. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am fod yn rhan o lwyddiant Eisteddfod Bethel 2014.

Clwb Bro Bethel Y siaradwr gwadd y mis yma oedd y Parchedig Geraint Roberts, Porthaethwy, ac roedd wedi dod â chasgliad o drysorau oedd yn ei feddiant i'w harddangos. Roedd wedi derbyn rhain dros nifer o flynyddoedd ac wrth eu harddangos cawsom wybod cefndir y casgliad. Bu'n sgwrsio'n ddifyr hefyd am y cyfnod arbennig o gydweithio â phobl ifanc yn Lerpwl cyn iddo fynd i'r Weinidogaeth a gweinidogaethu yn Nyffryn Nantlle, Uwchaled a Manceinion. Roedd wedi bod yn hapus iawn lle bynnag y bu yn byw ac wedi cael profiadau arbennig ymhob man. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Glenys Griffith ac i ferched y baned, sef Ann Ellis Williams ac Ivy Wright.

Derbyniodd pawb fwydlen y cinio Nadolig sydd ar Ragfyr 3ydd a gofynnir yn garedig iawn I chi ei ddychwelyd, gyda'r arian, i'r cyfarfod nesaf, a hynny ar Dachwedd 4ydd yn Festri Bethel pryd y disgwylir Dafydd Iwan i anerch yr aelodau.

Atgoffwyd pawb i gasglu talebau WISH y Daily Post sydd, erbyn hyn, wedi ymddangos yn y papur.

Dymuna Mair G. Jones, Tan y Buarth, ddiolch i'w

chyfeillion a chymdogion yn Bethel a Deiniolen am y cardiau a'r rhoddion a gafwyd ar yr achlysur o golli ei brawd Elfyn ac hefyd i'r Parch John Pritchard am ei bresenoldeb yn y capel.

Cynhelir bore coffi yny Neuadd Goffa Behel fore Mercher, Tachwedd Sed o 10.00 tan 12.00.

Bydd byrddau cacennau, crefftau Nadolig a tombola. Mynediad £3.00. Croeso i bawb. Byd elw'r bore yn mynd i Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Alaw.

Y CYSEGR Plant yr Ysgol Sul oedd yng ngofal y Gwasanaeth ar ddydd Sul, Hydref 19ed, a bu iddynt gyflwyno adroddiadau, darlleniadau a chaneuon ar y thema o ddiolch. Croesawyd pawb ynghyd gan Myfanwy Harper, yr Arolygwr, a diolchodd hi i'r plant am ddysgu'r gwaith ac i'r athrawon am bob cymorth wrth baratoi'r cyflwyniad. Cyn ddiwedd y gwasanaeth bu Manon Gwynedd yn sgwrsio'n ddifyr gyda'r plant a hwythau'n ymateb yn dda iawn iddi hi. Cyfanswm y casgliad rhydd oedd £125, a bydd hwn yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Gwion, yn enw Plant Ysgol Sul y Y Cysegr.

Merched y Wawr

Yn festri'r Cysegr, cynhaliwyd ail gyfarfod Merched y Wawr, nos Fercher 8fed o Hydref dan lywyddiaeth Mair Price. Croesawodd pawb yna, yn arbennig yr aelodau newydd, a chyfeiliwyd i gân y mudiad gan Beti Owen.

Bydd Cinio Nadolig y gangen yn cael ei gynnal yng Nghaffi'r Felin Pontrug ar Ragfyr 10fed. Dosbarthwyd bwydlenni i bob aelod, a bydd angen y dewisiadau a'r arian yng nghyfarfod mis Tachwedd os gwelwch yn dda.

Roedd cyfle i bawb ymuno yn y Cwis Hwyl cenedlaethol fydd i'w gynnal yn y Seiont Manor nos Wener Tachwedd 14eg

Elusen y Llywydd Cenedlaethol am eleni yw ymchwil at Glefyd y Galon a byddwn yn casglu ategolion - sgarffiau, mwclis, menyng ag ati tuag at yr achos.

Bydd cwrunddyddi ddysgwyr ar 15fed o Dachwedd ym Mangor o 2 tan 3.30, a gobeithir i nifer o aelodau fynd yno i sgwrsio efo dysgwyr - gwybodaeth bellach gan Mair Read.

Bydd rhanbarth Dwyfor yn cynnal nifer o deithiau cerdded, ac mae gwahoddiad i Arfon ymuno, yn arbennig ar y daith fydd ar Ionawr 26 i Drawsfunydd. Am fwy o fanylion cysylltwch â Rita.

Tynnwyd sylw at nifer o gystadlaethau Merched y Wawr yn ganolog, roedd y wybodaeth ar gael i aelodau astudio ar fwrdd yn y cefn. Cyhoeddwyd fod bore goffi at Ward Alaw i'w gynnal yn y Neuadd Goffa ar Dachwedd Sed.

Dymunwyd yn dda i Jen ar ddod yn nain i Now, ac i Catrin merch Mary sy'n derbyn triniaeth ar hyn o bryd. Hefyd dymunwyd yn dda i Angharad,

merch Ann, fydd yn priodi ymhen y mis, ac i'n trysorydd Mair Williams wrth ddathlu ei phen-blwydd arbennig.

Dosbarthwyd y cardiau Nadolig, os oes unrhyw un angen mwy cysylltwch â Rita.

Ym mhurf ran y noson cawsom cwmni Melanie Phillips ac Annes Sion o fudiad GISDA yng Nghaernarfon. Mudiad yw hwn sy'n darparu cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc, gyda'r brif swyddfa bellach ar y maes yng Nghaernarfon, yn hen swyddfa Bob Parry. Gyda chyflwyniad difyr trwy gyfrwng power point, disgrifiodd Melanie fel y sefydlwyd y mudiad yn 1985 gan wirfoddolwyr, i roddi cymorth i bobl ifanc di-gartref yng Nghaernarfon. Bellach datblygodd yn sefydliad cynhwysfawr iawn sy'n darparu llu enfawr o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc megis hyfforddiant am swyddi, iechyd a sgiliau byw, gwasanaeth cwnsela, cynghori a chymodi ac, wrth gwrs, mae'n parhau i roddi cymorth i'r di-gartref gyda'u hosteli yng Nghaernarfon a Blaenau Ffestiniog. Soniodd Melanie hefyd am y datblygiadau mwy diweddar o fynd allan i'r ysgolion uwchradd i gynnal sesiynau trafod ymysg yr ifanc, ac am gynllun difyr a hwyliog Sinema deithiol sydd yn bosibl i'w hurio gan unrhyw gymdeithas neu unigolion. Diolchwyd iddi yn gynnes gan Lis Watkins sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac yn dyst i'r gwahaniaeth mae GISDA wedi ei wneud i fywydau nifer ohonynt. Gwesteion y te oedd Sheila, Nora ac Anne a diolch iddynt. Enillwyd y raffl gan Mair Price.

GEIR CYMRU

Diolch am Gefnogaeth ein
Cwsmeriaid yn Eryri
dros **25** Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

TM JONES

SEFYDLWYD DROS
20 MLYNEDD

SYNUD A CHADW

CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol

01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

SWYDDFA POST BETHEL

Ffôn (01248) 670261

COFIWCH AM EIN GWASANAETH NEWID PRES TRAMOR YSWIRIANT, TALU BILIAU ETC.
Gwasanaethau Arferol Swyddfa'r Post
A HEFYD PAYPOINT, LOTERI, A PHEIRIANT TYNNU PRES (CASHBACK)

LLUN-SADWRN
5.30am-7.30pm
DYDD SUL
5.30am-3pm



Ethan a Poppy Llys-genhadon

Ysgol Waunfawr

Cyngor Ysgol Cynhaliwyd dau gyfarfod yn ystod yr hanner tymor hwn a phenderfynwyd ein bod yn cefnogi ymgyrch Plant Mewn Angen a Chronfa Achub y Plant y tymor nesaf. Bydd diwrnod o weithgareddau yn cael eu trefnu ar gyfer diwrnod Plant Mewn Angen a chaiff bawb wisgo siwmpwr Nadolig diwrnod cinio dolig yr ysgol, sef Rhagfyr y 14eg.

Noson Ffasiwn Hoffem ddiolch i bawb a gefnogodd y Noson Ffasiwn yn y Ganolfan ddechrau mis Hydref. Cafwyd noson lwyddiannus iawn gwnaed dros £800 o elw. Diolch unwaith eto i'r Bwyllgor y Cyfeillion am eu gwaith caled.

Ffilmio Ysgol Jac Bu plant blwyddyn 4, 5 a 6 yn ffilmio yn Stiwdio Antena yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Mwynhaodd pawb y profiad a rydym yn edrych ymlaen i weld doniau'r plant a Mr Huw Llewelyn Jones!

Llys Genhadon Chwaraeon Llongyfarchiadau i Poppy Burns ac Ethan Land o flwyddyn 6 am gael eu dewis yn lys genhadon chwaraeon yr ysgol. Bydd y ddau yn mynychu cwrs yn fuan er mwyn cael gwybod beth fydd eu dyletswyddau.

Nosweithiau Rhieni Cynhelir nosweithiau rhieni wythnos Hydref yr 20fed.

Twrnament Rygbi Dymunwn yn dda i'r tîm rygbi a fydd yn cystadlu yn Nhwrnament Clive James ar y Morfa yng Nghaernarfon ddydd Mercher Hydref yr 22ain.

Pob lwc hogia!

Gwasanaeth Diolchgarwch Cynhelir ein gwasanaeth diolchgarwch yng nghapel

Croes-y-Waun ddydd Gwener Hydref y 24ain am ddeg y bore. Diolch i'r Parchedig Gwenda Richards am roi anerchiad arbennig i'r plant. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu bwydydd a nwyddau i Fanc Bwyd Caernarfon.

Ras Eryri Bydd yr ysgol yn cefnogi Ras Eryri eto eleni ddydd Sadwrn Hydref y 25ain o 11.30 o'r gloch y bore hyd tu 3.00 y pwn. Diolch ymlaen llaw i'r rhieni sydd wedi gwirfoddoli i helpu i ddosbarthu lluniaeth i'r rhedwyr.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof:

- Noson Grefftau Nadolig yn y Ganolfan, Tachwedd 14eg am 7 o'r gloch.

- Plant mewn Angen, Tachwedd y 14eg.

- Ffair Nadolig yn yr ysgol nos Fercher, Rhagfyr y 10fed.

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Medi oedd: £30: Mr J.H. Edwards, Anneddle; £20: Mr Jeff Davies, Tŷ Hen; £10: Mr Emrys Hughes, Treflan Isaf.

Diolch Dymuna Phil a Delyth Lowe a'r teulu ddiolch o galon i holl drigolion pentref Waunfawr am wneud iddynt deimlo mor gartrefol, hapus ac yn rhan o'r gymuned am yr holl flynyddoedd. Diolch i bawb am eich cyfeillgarwch, cymorth a'ch cefnogaeth. Gobeithio eich gweld o gwmpas yn fuan! Pob dymuniad da i'r teulu bach newydd yn Ger y Ffynnon.

Annwyl deulu, Dymunwn bob hapusrwydd i chi yn eich cartref a'ch cymuned newydd. Diolch i chi am eich cyfeillgarwch a'ch cymwynasau trwy'r blynyddoedd y buoch yma yn ein mysg.

Cangen Plaid Cymru Ar nos Wener, Sed o Ragfyr cynhelir noson gyda'r arwr gwerin,

Meic Stevens, yn Nhafarn y Snowdonia Parc, Waunfawr am 8 o'r gloch. Pris tocyn yn £8 ac ar gael o'r dafarn (650409) neu trwy gysylltu a Hawys (650198). Trefnir y noson gan Gangen Plaid Cymru Waunfawr a'r Cylch. Croeso cynnes i bawb.

Diolchgarwch Cynhaliwyd dau wasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys y Waun. Roedd un yn gngofal y Gweinidog ac athrawon yr Ysgol Sul gyda'r plant yn cymryd rhan. Aelodau y capel oedd yng ngofal gwasanaeth yr oedolion.

Ymdddeoliad. Dymunwn yn dda i Dylan Rhys, Eryri Wen, Stad Bod Hyfryd, ar ei ymdddeoliad o'i swydd yn Swyddfa Sir Gwynedd.

Dymunwn yn dda hefyd i Mr Ken Latham, Haul a Gwynt, ar ei ymdddeoliad o'i swydd ym Mharc Gwledig Padarn, Llanberis.

Cael ei Benodi Llongyfarchiadau i Gruffydd Rowlands, Tan-y-marian, ar gael ei benodi yn ddirprwy Brif-ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Brynrefail.

Pen-blwydd Arbennig Yn ystod y mis bu pedwar o bobl ifanc y pentref yn dathlu cyrraedd eu deunaw oed. Llongyfarchiadau i Beca Rowlands Angorfa; i Faye Latham, Haul a Gwynt; i Ryan Richards, Stad Tŷ Hen a Llywelyn Lowe, Gyrnant Lodge. Dymunwn bob hapusrwydd a dymuniadau da i chi i'r dyfodol.

Babanod Newydd Llongyfarchiadau i Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt, ar ddod yn hen nain i or-wyr bach, Caio Llywelyn, mab a anwyd i'w hwyres, Ela, a'i chymar, Craig. Yng Nghaernarfon mae'r teulu bach

yn byw.

Llongyfarchiadau hefyd i Robat a Bethan Williams, Gwernydd, ar ddod yn daid a nain i wyres fach, Anest Caroline. Merch i'w mab, Edryd, a'i gyymar, Michelle, a chwaer fach i Rhion. Mae'r teulu bach yn byw yng Nghernarfon.

Ganwyd mab, Patrick i Steven a Page Sykes, Tegfryn, brawd bach i Jessica a Rebecca ac wŷr i Lyndsey a Martin, Eirianallt. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd.

Cofion Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Laura Pierce, sydd wedi symud o Gartref Preswyl y Foelas, Llanrug, i Gartref Preswyl Cerrig yr Afon. Anfonwn ein cofion hefyd at bob un o'r pentref sydd yn cael gofal mewn cartrefi preswyl.

Yn yr Ysbyty Cymerwyd Mrs Kit Jones, Tref Eilian, i'r ysbyty ym Mangor. Cofion cynnes atoch Anti Kit, gobeithiwn yn fawr eich bod yn teimlo'n well.

Priodas Mewn gwasanaeth arbennig yng Ngwesty Bron Eifion, Cricieth, priodwyd Dafydd Thomas, Treforfan a Denise. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i chi eich dau yn eich cartref yn Llanrug.

Pen-blwydd Priodas Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Wendy a Garry Jones, Stad Tref Eilian, ar gyrraedd eu Priodas Berl. Tri deg mlynedd o fywyd priodasol.

Profedigaeth Cydymdeimlwn yn ddwys â Claire Hughes, Dylan a Catrin, Manchester House, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl iddynt.

Cydymdeimlwn â theulu Cae Adda yn eu tristwch o golli nain Iona, a oedd yn annwyl iawn iddynt.

Blodau Racca
PENISARWAUN

Rhodod o'r Galon Yw Blodau

- Basgedi Planhigion
- Basgedi Crog
- Planhigion Gardd

Hefyd, Compost ar werth

Alwyn a Sarah Jones
(01286) 870605

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWGS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

Gwynedd yn llongyfarch Antur Waunfawr



Clychau'r Gog

Mae Cyngor Gwynedd wedi llongyfarch Antur Waunfawr ar lwyddo i ennill achrediad amgylcheddol cydnabyddedig a fydd o gymorth iddynt wrth geisio am waith a, thrwy hynny, datblygu'r cwmni.

Mae sicrhau'r ISO14001 yn golygu fod y fenter gymdeithasol yn cwrdd â gofynion ar gyfer sustem rheoli amgylcheddol sy'n cael ei adnabod yn rhyngwladol.

Dywedodd y Cyngorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi Cyngor Gwynedd:

"Rydym yn falch bod Antur Waunfawr wedi manteisio ar gynllun arloesol gan y Cyngor i gynorthwyo busnesau'r sir i ennill achrediadau ISO9001 ac ISO14001. Ein gobaith ydi y bydd sicrhau'r achrediad yma yn galluogi'r cwmni i ddatblygu ymhellach. "Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chwmnïau'r sir i sicrhau eu bod yn gallu cystadlu am gytundebau o bwys ac yn gallu gwneud y mwyaf o gyfleon busnes. Dyma enghraifft dda o fenter leol yn gwneud y mwyaf o'r cymorth sydd ar gael."

Dywedodd Prif Weithredwraig Antur Waunfawr Menna Jones: "Rydym yn falch iawn o fod wedi cyflawni'r achrediad hwn, ac yn hynod o ddiolchgar am y gefnogaeth a'r arweiniad a gawsom gan Gyngor Gwynedd ar hyd y ffordd. Mae'r llwyddiant hwn hefyd yn dyst i waith caled ein staff, sydd bob amser yn sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cyflawni a'u cynnal."

Dylai unrhyw fusnes o Wynedd sydd eisiau gwybodaeth pellach ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael gysylltu gydag Uned Busnes Cyngor Gwynedd ar 01286 679392 neu busnes@gwynedd.gov.uk.



Criw Menter Fachwen

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn festri Eglwys Sant Mair bnawn Mawrth, 21 Hydref. Croesawodd yr arweinydd bawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr dan arweiniad Auriel Howel. Cafwyd ymddheuriadau oddi wrth nifer o'r aelodau. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd mis Medi a thrafodwyd rhai materion.

Bydd Ffair Hydref yr Eglwys yn cael ei chynnal ar 22 Tachwedd. Cinio Nadolig r 18 Tachwedd ym Mron Eifion. Bore mins peis i'w drefnu ym mis Rhagfyr.

Cytunodd yr Arweinydd, Hilda Orritt, yr Ysgrifenydd, Auriel Howel a'r Trysorydd, Dorothy Jones i gario mlaen gyda'u swyddi am flwyddyn arall.

Cafwyd amser i brynu oddi ar y bwrdd gwerthu. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Auriel, a rhoddwyd y raffl ganddi, ac fe'i henillwyd gan Hilda. Diolchwyd i Auriel gan Jinni a Marjorie. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg

Hogia'r Ddwylan
Am ymuno â chôr ?

Ar drothwy tymor newydd mae **Hogia'r Ddwylan** yn awyddus i gynyddu nifer aelodaeth y côr.
Estynnir gwahoddiad i unrhyw un sy'n hoffi canu a chymdeithasu i ymuno â ni.

I gysylltu ffoniwch â John ar 01248724159, neu gallwch alw heibio ar noson ymarfer, sef Nos Iau yn Festri Capel Mawr, Porthaethwy am 7.30pm
Edrychwn ymlaen at eich croesawu.

DODDREFN PERKINS

2 Ganolfan Pen-Ilyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft

PRISIAU CYSTADLEUOL

Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040

YSWIRIANT FUW



Hoffech chi hybu
BWYD LLEOL
BUSNESAU CEFN GWLAD
ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant FFW?
Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683
Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol. Yng nghyd-destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935



Plwyf Llanberis yn bennaf. Pwy oedd Hugh Lewis?

Yn 1888 cyhoeddwyd llyfryn bychan o'r enw "Hugh Lewis". Yr awdur oedd y Parch G. Tecwyn Parry, Llanberis, a ffrwyth cystadleuaeth a gynhaliwyd flwyddyn ynghynt oedd y cyhoeddiad. Yn 1887 testun cystadleuaeth yng Nghylchwil Lenyddol Llanberis oedd "Traethawd Bywgraphyddol a Beirniadol ar y diweddar Hugh Lewis, Pen y Bryn, Llanberis, yng nghyda'i Ysgrifeniadau." Y beirniad oedd y Parch T. Roberts, Jerusalem, Llanberis.

Felly, pwy oedd yr Hugh Lewis hwn a haeddai gystadleuaeth i adrodd hanes ei fywyd a'i waith? O ddarlenn y llyfryn, daw'r wybodaeth ganlynol i'r amlwg.

Cafodd ei eni yn Rhosybol, Sir Fon tua 1828, (tua 1826 yn ôl Hanes Methodistiaeth Arfon) yn fab i Robert a Mary Lewis. Gweithiai'r tad yng Ngwaith Copr Mynydd Parys, ond oherwydd dirywiad yn y gwaith, penderfynodd y teulu symud i'r Nant Uchaf, a chafodd ei gyflogi yn y gwaith copr lleol yno. Digwyddodd hyn pan oedd Hugh tua saith oed.

Mae'n ymddangos mai yn Chwarel Dinorwig y cafodd Hugh waith, yn hytrach na dilyn ei dad i'r gwaith copr. Yn 1854 priododd â Mary Jones, Tai Bach, Nant Peris, a chawsant bedwar o blant. Roedd y ddau fab yn gerddorion: William Padarn yn denor arbennig o dda a gafodd ei hyfforddi'n ddiweddarach yn y Royal Academy yn Llundain, a John hefyd yn gantor. Ond gwantan iawn ei hiechyd oedd y fam, a gadawyd Hugh yn ŵr gweddwr ifanc i ofalu am bedwar o blant.

Ail-briododd â gwraig weddw o Lanberis o'r enw Margaret Griffiths. Roedd ganddi dair merch o'i phriodas gyntaf, ac o'u hail briodas cafodd Hugh a Margaret bedwar arall o blant. Roedd bellach yn un o is-oruchwylwyr Chwarel Dinorwig, a symudodd y teulu o Nant Peris i dŷ newydd a adeiladwyd i Hugh Lewis, sef Pen y Bryn, Llanberis. Cyn symud, roedd wedi bod yn flaenor yng Nghapel Rehoboth, Nant Peris am ddeuddeg mlynedd.

Tua'r cyfnod hwn hefyd y sefydlwyd Cylchwil Lenyddol Dinorwig a Llanberis. Hugh Lewis oedd y prif symbylydd, ac ef oedd y cadeirydd cyntaf. Y ddau arall a fu'n weithgar gyda sefydlu'r gylchwil oedd Owen Parry, Blue Peris, Dinorwig a William Jones, Tyddyn Charles, Llanberis. Deuai rhai o lenorion amlycaf y gogledd i annerch y gylchwil yn Llanberis. Roedd Hugh Lewis yn barddoni, ac yn cyfansoddi pryddestau a enillodd wobrau iddo mewn eisteddfodau lleol. Crefyddol gan mwyaf oedd testun ei waith barddol. Pan symudodd i Lanberis, fe'i codwyd yn flaenor yng Nghapel Gorffwysfa, a bu yn y swydd yno am 19 o flynyddoedd.

...a phwy oedd Deio Nant Cwm Brwynog?

Does dim sicrwydd a oedd Deio yn gymeriad go iawn neu'n ffrwyth dychymyg. Chlywais i erioed yr ardal uwchben Llanberis yn cael ei galw yn Nant Cwm Brwynog, ond efallai ei bod ers talwm. Mae'r hanesyn canlynol yn adrodd hanes digwyddiad a allai ddyddio o ddiwedd y ddeunawfed ganrif neu ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bryd hynny roedd pedwar o frodyr yn byw yn fferm Clogwyn y Gwin, Rhyd-ddu, ac yn ôl y sôn, yn hogiau llawn direidi, a'r direidi hwnnw ar brydiau yn tueddu i fod yn eithafol.

Roedd Deio yn chwim fel ewig, ac yn rhedeg dros Fwlch Maesgwm i Glogwyn y Gwin i garu ar y slei gyda'r forwyn. Roedd brodyr y fferm yn gwrthwynebu hyn, ac yn benderfynol o ddysgu gwers i Deio, ac felly y bu. Fe'i daliwyd un tro a'i glymu â rhaff cyn ei ollwng i'r afon gyfagos a lifai i Lyn Cwellyn. Yna gyda dau frawd ar y dorlan a'r ddau arall ar y naill ochr llusgwyd Deio druan yn ôl a blaen drwy'r dwr nes ei fod wedi hanner boddi. Wedi iddo gael ei ollwng yn rhydd rhoddwyd gorchymyn na ddeuai byth yn ôl i geisio'r forwyn. Bu Deio yn ei wely am ddyddiau yn dioddef o'r driniaeth ddyfrllyd.

Ond buan y daeth Deio'n ôl, ond heb fentro i lawr tua'r ffermdy. Yn hytrach, safai ar graig fawr uwchlaw'r fferm a gweiddi'r pennill canlynol:

Cai ei gydnabod gan y chwarelwyr fel gŵr teg, yn parchu ei gyflogwr, ond yn dangos yr un parch tuag at y chwarelwr cyffredin hefyd. Hynny, o bosib a fu'n achos iddo gael ei ddiswyddo o'r chwarel yn dilyn cload allan 1885.

O golli ei waith yn y chwarel, a'i amgylchiadau'n anodd, penderfynodd symud i Fangor Uchaf i gadw busnes, ac yno y bu farw ar y 10fed o Fawrth 1886. Fe'i claddwyd ym Mynwent Nant Peris.

Dyna'r ffeithiau moel a geir yn y llyfryn. Mae rhai o'i gerddi wedi eu cynnwys, ond anhebygol y byddai unrhyw un ohonynt yn apelio heddiw. Ar y pryd mae'n amlwg fod gan gymdogaeth Llanberis gryn feddwl ohonno, ac adroddir am y golled i'r ardal pan symudodd i Fangor Uchaf ac am y dorf enfawr a ddaeth i'w gynhebrwng.

Bu'n rhaid chwilio'r cyfrifiadau i gael mwy o wybodaeth am y teulu. Plant Hugh Lewis o'i briodas gyntaf oedd William, John, Ellin a Mary Ann; ac o'i ail briodas, Sarah, Hugh a Robert. Ond roedd y teulu yn byw yn 22 Newton Street, Llanberis yn 1881, felly mae'n amlwg mai yn ddiweddarach y symudodd i Ben y Bryn.

Roedd y mab, William Padarn Lewis a gafodd addysg gerddorol yn y Royal Academy yn briod ac yn byw yn Llanfair is gaer yn 1891 gyda'i wraig Ellen a'i blant Hugh, Jennie, Ednyfed, Myfanwy ac Arthur. Yn yr Herald Cymraeg, fis Ebrill 1903 deuthum ar draws cofnod o farw W.H.Lewis yn Lerpwl. Cai ei adnabod fel Eos Padarn, ac fe'i disgrifir fel "datganwr enwog a cherddor galluog". A dyna'r cyfan a geir amdano dan newyddion Llanberis. Ai hwn oedd William Hugh Lewis/William Padarn Lewis?

Methais a darganfod y teulu wedi hynny. A oeddent wedi mudo tybed? Roedd Ednyfed yn bendant wedi mudo i'r America yn 1914 ac yn cael ei dderbyn yn ddinesydd Americanaidd yn 1920. Ar y pryd roedd yn byw yn Delaware, Pennsylvannia.

Aros yn Llanberis oedd hanes ail fab Hugh Lewis, sef John, ac erbyn 1911 roedd yn briod gyda Gwen ac yn byw yn 2 Bethesda Street. Roedd ganddo fab o'r enw Emyr. Bu'n arweinydd y gân yng nghapel Gorffwysfa, a bu'n gyfrifol am gynnal dau gyngerdd gyda rhai o brif gantorion Llundain yn cymryd rhan. Efallai mai cysylltiadau ei frawd, William Padarn fu'n gyfrifol am hynny. Roedd â'i fryd ar ffurfio côr anenwadol yn Llanberis.

Cais sydd yma felly i wybod a oes rhai o ddisgynyddion Hugh Lewis yn dal i fyw yn yr ardal, ac a oes mwy o wybodaeth amdano.

"Yr hogia mawr diog

Mae Deio Cwmbrwynog

Yn gofyn am gyflog

Yn gefnog ar gân;

Dowch allan lebanod


I odro eich gafrod

Chwioriudd cam buchod Cwm Bychan."

Ac allan y deuai'r brodyr yn gaclwm gwyllt, ond heb fod yn ddigon cyflym i ddal Deio a redai'n ôl dros Fwlch Maesgwm wedi cael hwyl ryfeddol.

O chwilota yn llyfr Ceiri Griffith ar achau hen deuluoedd Sir Gaernarfon, gellir darganfod fod brodyr yn byw yng Nghlogwyn y Gwin yn y cyfnod hwn. Roedd Owen Owens wedi ei eni yn 1750, a bu farw yn 1816. Brodyr iddo oedd Evan Owen (1755-1840), Edward Owen (1749-1834) a ddisgrifir fel un o 'hen lanciau Clogwyn y Gwin', a Robert Owen (1759-1847). Bu brawd arall, William, farw yn flwydd oed yn 1765. Os mai'r rhain oedd y brodyr yn y stori, mae'n ei dyddio fymryn yn gynharach neu yn egluro pam na allent ddal Deio gan eu bod oll dros hanner cant oed os yw dyddiad y stori yn wir!

Ond pwy tybed oedd Deio/Dafydd o Gwm Brwynog? Ac a fu ei garwriaeth efo morwyn Clogwyn y Gwin yn llwyddiannus?



Gwellhad o’r ddannodd.

Ym 1901 roedd groser a dilledydd o Lanberis yn cynnig “certain cure” i’r ddannodd. W.H.Jones oedd ei enw, ond does gen i ddim gwybodaeth ynglyn a ble roedd ei siop, na chwaith pa mor

gymwys oedd y siopwr i werthu pa beth bynnag a gynigiai i wella ‘tic, toothache and neuralgia’. Mae’n ymddangos oddi wrth ei benllythyr mai W.H.Jones ei hun oedd yn paratoi’r feddyginiaeth!

Ymarfer Saethu yn Nant Peris.

Tra’n chwilio trwy hen fapiau Arolwg Ordans o’r ardal yn ddiweddar deuthum ar draws “rifle range” yn Nant Peris. Gwyddwn am yr un yng Nghwm Brwynog ac am y ‘mantlet’ yng Nghwm Dwythwch, ond roedd hwn yn hollol newydd i mi. Ar fap Arolwg Ordans 1914 mae wedi ei farcio’n amlwg ar y llechweddau gyferbyn â Talgau a Than yr Allt, rhwng y pentref a’r Nant Ucha. Dangosir pont droed yn cario llwybr ar draws yr afon i’w gyrraedd o’r ffordd fawr.

Ar ochr dde-ddwyreiniol y ‘range’ enwir ‘butts’, ac yna’n union i’r gogledd-orllewin ceir ‘200 yards’. Mae’n awgrymu mai daucan llath oedd hyd y saethfa. Mae dyddiad y map hefyd yn awgrymu fod y saethfa yno cyn cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Chwiliais am fap Arolwg Ordans cynharach, ond doedd dim sôn amdano yn 1889.

Does gen i ddim mwy o wybodaeth. All rhywun daflu goleuni ar y saethfa hon?

Ac i orffen

Ar ddechrau’r ganrif ddiwethaf roedd dau fardd yn galw eu hunain yn Owen Peris a Meilir Wyn. Ceir englynion beddargraff ganddynt i nifer o drigolion Llanberis. Enwau barddol yn unig sydd gen i, ac mae angen mwy o wybodaeth. Pwy oeddent? Oes mwy o’u gwaith ar gael?

Y mis nesaf cawn hanes enwau ddoe a heddiw ar greigiau a chlogwyni ym Mwlch Llanberis. Os oes unrhyw wybodaeth gennych ar gynnwys colofn y mis hwn, neu unrhyw gais am hanes y fro, yna cysylltwch efo Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515)



Cylch Meithrin Llanberis a Nant Peris

Ocsiwn Elusennol

Gyda
Emyr Gibson

Er mwyn helpu i ariannu’r cylch yn ystod 2014/15

Clwb Cymdeithasol, Llanberis

Nos Wener, Tachwedd 21 am 7:30 y.h.

Mynediad am ddim

Carwn eich cefnogaeth ar noson yr ocsiwn a hefyd drwy gyfrannu cynnyrch neu wasanaethau o flaen llaw y gallwn werthu ar y noson.

Am fwy o wybodaeth neu i wneud cyfraniad, cysylltwch â Llinos ar 07737733864 neu Ceris ar 077093929492

Diolch am gefnogi dyfodol ein cymdeithas


CHIROPODYDD

RICHARD THOMAS SRCh/HPC

GALWADAU I’R CARTREF

Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD o waith yn y GWASANAETH IECHYD



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

www.fframia.com



GWYNANT PIERCE

CYNYRCHION COED
GATIAU • FFENSUS
AM BRISIAU
CYSTADLEUOL

— Uned 1 —
**Fferm Bryn Afon
LLANRUG**
(01286) 674183
07889899901

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Cyfarchion Nadolig Gan na fydd Gwilym Williams, Bron Eifion, Ffrdd yr Orsaf yn anfon cardiau Nadolig eleni fe ddymuna Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o ardal Eco'r Wyddfa sydd wedi bod yn garedig a gofalus ohono dros y blynyddoedd.

Y Band Bydd Ffair Grefftau'r Nadolig ar nos Wener, Tachwedd 28ain yng Nghartre'r Band. Drysau'n agored am 6 o'r gloch. £2 yw'r mynediad yn cynnwys paned a mins pei. Gwahoddir unrhyw un sy'n dymuno archebu bwrdd a manteisio ar y cyfle i werthu eu cynnyrch i gysylltu â Rhianwen am 01286 675232.

Hefyd, ar nos Fawrth, 16eg Rhagfyr, bydd Noson Garolau y Band yn y Ysgol Gynradd am 7.00 o'r gloch. Pris mynediad fydd £3 a phlant yn £2. Yn cynnwys paned a mins pei. Croeso cynnes i bawb.

Nos Iau, 18fed o Ragfyr, bydd y Band yn crwydro o gwmpas y pentref yn chwarae carolau.

Enillydd Clwb Cant mis yma yw William Wiggins, gyda Rhif 69.

Diolchiadau

Fe ddymuna Charlotte Evans, Sarah a Claire, 9 Nant y Glyn, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli Veronica, chwaer a modryb mor annwyl iddynt.

Gan ddiolch yn arbennig i'r Meddygon a Staff Meddygfa Waunfawr, Menter Fachwen am eu gofal a'u cefogaeth dros flynyddoedd o amser ac i'r Ward Gofal y Galon, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr.

Bore Coffi Macmillan Cafwyd bore Coffi llwyddianus yn y Sefydliad Coffa a derbyniwyd £380 tuag at Elusen Macmillan. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Enillwyr y raffl oedd: Bethanne, Valmai, Owi, Buddug, Rhiannon, Rachel, Anwen a Hâf.

Y Sefydliad Coffa Enillwyr Clwb cant mis Medi oedd: 1. Mrs M. McGuiness, Arfryn; 2. Mrs M. McGuiness, Arfryn; 3. Mrs Vera Williams, Awelon.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb cant mis Hydref oedd: 1. Selwyn Lloyd, Afallon; 2. Berwyn Jones, 59 Glanffynnon.

Merched y Wawr

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Menna Williams, a chychwynwyd y noson gyda Chân Y Mudiad. Dymunir pen-blwydd hapus arbennig i Olwen a Megan. Da deall fod Helen ac Enid yn gwella wedi eu triniaethau yn yr ysbyty.

Nos Wener, Tachwedd 14 am 6.45 yh cynhelir Cwis Hwyl Cenedlaethol y Mudiad yng Ngwesty'r Seiont Manor – bwyd yn brydlon am 7 o'r gloch, gyda'r cwis yn dechrau am 8.00.

Cynhelir Ysgol Undydd i Ddysgwyr ar Sadwrn, Tachwedd 15fed, yn y Ganolfan Gymraeg i Oedolion, Stryd y Deon, Bangor, rhwng 2.00 a 3.30.

Beth am ddangos eich doniau creadigol trwy gynllunio Cerdyn Nadolig 2015 – rhai i'r ynllun fod yn wreiddiol ac yn addas ar gyfer ei atgynhyrchu. Cynnigir ffotograffiaeth at y dylunio ynghyd â barddoniaeth gwreiddiol oddi fewn. Rhaid i'r cardiau gyrraedd y Ganolfan Genedlaethol erbyn Rhagfyr 5ed.

Bydd y Gangen yn cyflwyno torch o flodau i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf ar Sul, Tachwedd 9fed. Cytunwyd i gyfrannu swm o arian tuag at Eisteddfod Llanrug ar Dachwedd 14 a'r un modd i Eisteddfod Bentref Penisarwaun yn yr haf. Wedi llwyddiant casglu esgidiau a bagiau tuag at Achub y Plant a Chymorth Cristnogol, bydd Calon yn bwysig dros y flwyddyn nesaf gan gefnogi Sefydliad y Galon Cymru. Dyma nod Merched y Wawr, yn ôl Gaynor Roberts, Cangen Mawddwy:

Ategolion at y Galon

Mwclis, Sgarffie, Broits a beltie, Cliriwch ddrorie, Rhowch yn Rhadlon.

Bydd y gangen yn dathlu'r Nadolig yn Y Felin. Rhaid cael yr arian os gwelwch yn dda erbyn y cyfarfod nesaf. I'r rhai oedd yn absennol, mae bwydleni ar gael gan Bethanne.

Gwestai'r noson oedd Steffan Huws, Bryn Difyr, Penbonc, Y Groeslon. Ef sy'n rhedeg busnes rhostio coffi o'r enw 'Poblado Coffi'. Breuddwyd Steffan ar ôl teithio'r byd a gweithio ar fferm goffi yn Colombia a gwledydd eraill oedd sefydlu busnes ei hun. Erbyn hyn mae ef a'i briod wedi gwireddu'r freuddwyd. Yn 'Poblado Coffi' cynigir dewis o'r ffa coffi gorau o ffynnonellau hollol deg i'r cynhyrchwyr. Ar ôl i'r ffa gyrraedd Cymru cânt eu rhostio mewn sypiau bychain i ryddhau'r blas gorau posibl o bob un. Mae pob coffi sydd yn Poblado wedi cael eu dewis yn ofalus i ddarparu'r cwsmeriaid gyag arywiaeth o goffi o darddiad sengl gwydch.

Defnyddir ffa arbennig i greu'r blendiau arbennig. Mae Coffi Poblado bellach yn cael ei weini mewn nifer o dai bwyta lleol o Frynrefail i Ynys Môn ac fe'i gwerthir mewn Marchnadoedd lleol.

Diolchwyd i Steffan am noson hynod o ddifyr gan Bethanne. Diolchir hefyd i Enid, Sheila a Megan am baratoi'r baned. Jennie, Eirian a Vera fydd yn gyfrifol am y baned yn Nhachwedd. Enillydd y Raffl oedd Phyllis. Ar Dachwedd 11eg cawn gwmni Elen Jones gyda 'Dwylo Difyr'.



SEFYDLIAD COFFA LLANRUG

Mae adnoddau gwydch ar gael yn y Sefydliad sy'n cynnwys neuadd, caffi, ystafell gyfarfod ac ystafell snwcer. Mae byrddau tenis bwrdd, bwrdd pwl a WIFI yno hefyd ar eich cyfer. Beth am ffurfio Clwb er mwyn cyfarfod a ffrindiau i wneud beth ydych yn ei hoffi ei wneud ar ddiwrnodau diflas y gaeaf yma. Gallwch logi ystafell am £8.

I drefnu cysylltwch a Meurig Parry ar 674497 neu Goronwy Hughes ar 674839

GAREJ

CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996

J. M. JONES
a'i FEIBION
LLANRUG
Gwaith Coffaol

Ffôn Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Wynford Lloyd Davies, Llanrug - Is Gadeirydd newydd Côr Meibion Caernarfon

Is gadeirydd newydd Côr Meibion Caernarfon yw Wynford Lloyd Davies o Cilan, 12 Talybont, Llanrug.

Wedi treulio 34 mlynedd fel plismon yn Llundain a Gogledd Cymru bu'n gweithio i'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol cyn cael ei benodi'n Swyddog Diogelwch Pobl Fethedig yn gweithredu ar draws Cymru gyfan.

Daw'n wreiddiol o Lan Conwy yn Nyffryn Conwy. Mae'n briod â Sally sy'n swyddog meddygol, â chanddynt ddau o blant - Emma sy'n ddoctor a Gareth sy'n filwr gyda'r Peirianwyr Brenhinol.

Mae Wynford yn dipyn o giamstar ar drwsio hen beiriannau ac wedi adfer sawl tractor dros y blynyddoedd. Mae ef a Sally newydd ddychwelyd o daith hir i Tseina.

Ymunodd â Chôr Meibion Caernarfon yn 1989 a bu'n Gadeirydd y côr ddwywaith dros y blynyddoedd. Meddai, "Mae côr meibion yn lle da iawn i wneud ffrindiau, gyda phobl o bob cefndir a phawb ar yr un lefel.

"Efo Côr Meibion Caernarfon cefais dripiâu gwych yn Ewrop a Gogledd America. Yr uchafbwynt i mi'n bersonol oedd taith i Uden a s-Hertogenbosh yn yr Iseldiroedd pan oeddent yn dathlu pen blwydd eu rhyddhad o ormes byddin yr Almaen yn ystod yr Ail Ryfel Byd - brwydr lle'r oedd milwyr o Gymru'n amlwg iawn.

"Cawsom groeso anhygoel – gwrthod cymryd pres am goffi mewn caffis ac ati - ac roedd y canu a'r cydganu'n emosiynol dros ben – yn arbennig pan berfformiwyd y Sunset Poem o Under Milk Wood gan Dylan Thomas ym mynwent y milwyr a gollwyd."

Ychwanegodd Wynford, "Mae Côr Meibion Caernarfon yn dal i chwilio am aelodau newydd. Hoffem gryfhau pob adran a gobeithiwn ail ddechrau cystadlu yn y Steddfod Genedlaethol ym Meifod flwyddyn nesaf.

"Mae llawer o aelodau'r côr yn dod o ardal Eco'r Wyddfa, ond nid da lle gellir gwell! Dewch i'n ymarfer bob nos Fawrth yn Galeri Caernarfon i flasur hwyl. Mae'r flwyddyn gyntaf yn ddi-dâl i aelodau newydd.



Capel y Rhos

Cynhaliwyd y gwasanaeth Diolchgarwch fore Sul, Hydref 19eg gyda phlant yr Ysgol Sul yn gwneud eu rhan yn ganmoladwy iawn unwaith eto. Diolch i'r athrawon am eu hyfforddi. Braf oedd gweld cynulleidfâ deilwng iawn wedi dod ynghyd i gefnogi'r plant. Cyfarchodd ein gweinidog y plant gan ddatgan ei ddiolch yntau iddynt.

Eleni, rydym yn casglu nwyddau ar gyfer bocsys sgidiau fydd yn cael eu hanfon i blant bach difreintiedig iawn yn Rwmania. Diolch i bawb am y rhoddion a ddaeth i law yn barod ond mae'r apêl yn dal ar agor tan Tachwedd 1af. Mae angen £2 ar gyfer cludiant bob boc – mae £20 eisoes wedi eu derbyn. Carwn ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb sy'n cefnogi'r fenter gan gofio fod Ysgol Gynradd Llanrug hefyd yn cynnal yr un apêl.

Dymuna aelodau Capel y Rhos gyfleu ein dymuniadau gorau i'n gweinidog Marcus gan ei fod yn dathlu ei benblwydd yn 60 oed ar Hydref 30ain. Gobeithio y caiff fwynhau'r achlysur yng nghwmni ei deulu a ffrindiau.

Ysgol Gynradd Llanrug.

Sioe Mathemateg.

Daeth Sioe Rhifedd ar ymweliad ddechrau'r mis, a chafodd y plant lawer o hwyl yn datrys posau. Bu'n rhaid i rai o'r athrawon gymryd rhan hefyd!

Ffair Lyfrau.

Cynhaliwyd ffair lwyddiannus eto eleni, Diolch am eich cefnogaeth.

Ffair Grefftau a Noson Ffilmiau.

Cofiwch am y Ffair Grefftau ar nos Iau, 6ed o Dachwedd. Tra bo'r rhieni a'r oedolion eraill yn pori'r stondinau – a gwario! - bydd cyfle i'r plant wyluo ffilmiau.



Disgo.

Roedd yn noson arswydus yn yr ysgol ar ddiwedd yr hanner tymor, a phawb wedi gwisgo i ddathlu Calan Gaeaf.



Cystadleuaeth Rygbi.

Llongyfarchiadau i fechgyn Blwyddyn 5 a 6 a enillodd mewn twrnameint yng Nghaernarfon.



Oedfaon mis Tachwedd

- Tachwedd 2 –
- Tachwedd 9 – Dr. Huw Tegid Roberts
- Tachwedd 16 –
- Tachwedd 23 – Mr T Alun Williams
- Tachwedd 30 – Mr Edward Morris Jones



More Mcmillan

Gwasanaeth Coffa, Llanrug.

Ar fore Sul, 9fed o Dachwedd am naw o'r gloch y bore bydd Gwasanaeth Coffa yn cael ei gynnal yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug. Mae'r gwasanaeth wedi ei drefnu i gofio cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf ac i goffau ieuenctid y pentref a gollodd eu bywydau yn y gyflafan. Bydd cynrychiolwyr o wahanol fudiadau a chymdeithasau lleol yn cymryd rhan. Mae croeso i drigolion Llanrug a'r cylch i'r gwasanaeth, ac estynnir croeso hefyd i unrhyw un oddi allan i'r fro sydd â chysylltiad teuluol â'r bechgyn a gollwyd.

EISTEDDFOD PENTREFI LLANRUG A CHWM Y GLO

NEUADD YSGOL
UWCHRADD
BRYNREFAIL
LLANRUG

Nos Wener,
Tachwedd 14eg,
2014

5:30 o'r gloch
Drysau ar agor am
5.00 o'r gloch

Rhestr Testunau a Rhaglen 2014

EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG A CHWMYGLLO 2014 – TACHWEDD 2014

Mae cystadleuaeth newydd yn yr Eisteddfod eleni – cystadleuaeth Gorffen Limrig. Dyma ddewis o ddwy o linellau gosod i chi eu hateb:- Roedd 'na le yn ein Steddfod fach ni neu

Un noson wrth grwydro drwy'r fro Gofynnwn i chi gyflwyno'ch limrigau ar y noson. Bydd bocs wedi'i baratoi i chi eu rhoi ynddo wrth ddod i mewn a bydd y beirniad llen yn eu pwyso a'u mesur. Gwobr o £10 i'r buddugwr! Ewch ati i gyfansoddi a chofiwch ddod i gefnogi'r Steddfod Bentref ar y noson. Welwn ni chi yno!

Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm y Glo.

O fewn ychydig flynyddoedd bydd yr eisteddfod yn dathlu ei phenblwydd yn ddeugain oed. Dros y blynyddoedd cafodd cenedlaethau o blant a phobl ifanc gyfle i ymarfer, mireinio ac arddangos eu hamryfal ddoniau oddi ar lwyfan yr eisteddfod ac yn y cystadleuthau gwaith cartref.

Ar un amser roedd yr eisteddfod yn llenwi nos Wener ac yn parhau ar bnawn a nos Sadwrn. Erbyn hyn cyfyngir y cystadlu i blant a phobl ifanc oedran ysgol, gan gynnal yr eisteddfod ar nos Wener yn unig. Mae nifer y rhai sy'n gwirfoddoli i fod yn aelodau o'r pwyllgor neu i gynorthwyo gyda hyfforddi'r ieuenctid hefyd wedi crebachu. Llond dwrn yn unig sy'n parhau'n hynod weithgar i gynnal yr eisteddfod bresennol, ac mae angen cymorth a chefnogaeth arnynt. Mae hen ddywediad yn honni fod bywyd yn dechrau'n ddeugain oed. Fyddwch chi'n barod i roi bywyd newydd i'r eisteddfod erbyn iddi gyrraedd ei deugain? Rieni Llanrug a Chwm y Glo, rhowch anogaeth i'ch plant i gystadlu yn eisteddfod eleni. Does dim rhaid i bawb fedru canu neu lefaru'n unigol. Mae cystadleuthau tynnu llun, sgwennu stori neu waith llaw. Mynnwch eich copi o'r rhaglen a dowch i gefnogi'r eisteddfod. Mae gwledd o adloniant wrthi'n cael ei pharatoi ar eich cyfer.

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
**cysylltwch â
Mantell Gwynedd**



- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271



RHEILFFORDD LLYN PADARN

Poblogaidd yn 2013


HELFA CALAN GAELF

Hanner tymor yr Hydref



Mwynhewch daith ofnus drwy goedwig y gwarchod a darganfor gwahanol ysbrydion ar hyd y daith.

Trenau'n ddyddiol o 11⁰⁰ y bore tan 2.45 y prynhawn



Prisiau arferol
Tocynnau teulu ar gael

Caffi a Siop ar agor

Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
www.lake-railway.co.uk 01286 870549

PANED AM DDIM!

Hoffem gynnig paned o de neu goffi am ddim i ddau. Y cyfan sydd rhaid ei wneud yw dangos yr hysbyseb hwn yn y caffi. (yn ddilys tan 01.11.2014)

Mae Sion Corn yn ei ôl!!

Mwynhewch daith fer ar drên arbennig Sion Corn i lecyn hudolus ger y llyn. Anhregion i'r plant a mins pei a diod tymhorol i'r oedolion.

Rhagfyr 7fed, 13eg, 14eg, 20fed & 21ain.
Oedolion a phlant o £9.00
(plant o dan dair oed o £4.00)

Rhaid archebu o flaen llaw





Llongyfarchiadau mawr i bedair o enethod Ysgol Penisarwaun ar eu llwyddiant ym Mhencampwriaethau Rhedeg Mynydd Gogledd Cymru o dan 10 oed ar y Gogarth yn Llandudno yn ddiweddar.

1af: Georgia Parkinson; 2. Abbi Parkinson; 3. Efa Baines; 4. Mabli Baines.

Ysgol Gymuned Penisarwaen

Ymweliad - Bore dydd Mawrth, Hydref 7fed, croesawyd Sarah Archer i'r Cyfnod Sylfaen i roi sgwrs ar sut i edrych ar ol eu dannedd i'r plant.

Twrnaint Pêl-rwyd - Aeth carfan frwdfrydig o blant BL5 a 6 i Ganolfan Brailsford ym Mangor i gystadlu yn erbyn ysgolion eraill o Gylch Arfon ar 14 Hydref. Chwaraeodd pawb yn hynod o dda a llwyddwyd i ennill 7 gem allan o 7. Ymdrech wych gan bawb gyda safon uchel iawn o chwarae'n amlygu ei hun.

Tynnu Lluniau - Bydd Mr Gwynant Parri yma bore dydd Mawrth Tachwedd 11eg i dynnu lluniau'r plant. Mae croeso i unrhyw blentyn sydd ddim yn ddisgybl yn yr Ysgol alw draw yn ystod y bore.

Plant Mewn Angen - Fe fydd yr ysgol yn cefnogi'r elusen eto eleni ar Ddydd Gwener, Tachwedd 14. Byddwn yn gwahodd y plant (a'r staff!) i

fynychu'r ysgol ar y diwrnod yn ei dillad nos! Hefyd, bydd y plant yn cynnal arwerthiant cacennau.

Sioe Nadolig - Cynhelir y Sioe pnawn Dydd Mercher Rhagfyr 10fed am 1:30 a gyda'r nos am 6 o'r gloch.

Diwrnod gwisgo Siwmpwr - Dydd Gwener Rhagfyr 12fed bydd cyfle i bawb ddod i'r ysgol mewn siwmpwr gwahanol. Byddwn yn casglu arian i gronfa Achub y Plant.

Pantomeim - Byddwn yn mynd â phlant BL 0 i BL 6 i weld "Cinderella" yn Venue Cymru Llandudno pnawn dydd Mawrth, Rhagfyr 16.

Ffair Nadolig - Cynhelir y Ffair Nadolig eleni ar nos Fercher Rhagfyr 17 am 6 o'r gloch, gwerthfawrogir yn ddiolchgar unrhyw gyfraniad tuag at y ffair.

Ail Gylchu - Cofiwch fod bin ail gylchu Antur Waunfawr wedi ei leoli yng nghyntedd yr Ysgol. Mae croeso i unrhyw un ei ddefnyddio. Bydd yr Ysgol yn derbyn arian bob tro y bydd yn llawn.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Medi oedd Mr Michael Jones, Tyddyn Perthi gyda Rhif 15. Llongyfarchiadau.

Cinio Nadolig Cynhelir y cinio Nadolig eleni yng Ngwesty'r Lion

yn Cricieth dydd Sadwrn, Rhagfyr 13eg. Bydd y bws yn cychwyn o flaen yr Ysgol am 12:15 o'r gloch. Enwau i Janet Ash (871265) Ann Paterson (872405) neu Liz Jones (872421) erbyn Tachwedd 24ain fan bellaf os gwelwch yn dda.

Diolch Dymuna Eric (Gil), 17 Bryn Tirion, ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau am y cyfarchion a'r anrhegion a dderbyniodd wrth ddathlu pen-blwydd arbennig ar Hydref 14eg.

Pwyllgor Gymuned Neuadd Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r

enillwyr yw Mr Robin Griffith, Groeslon Isaf, a Carolyn Roberts, Pen Dinas Mawr.

Dylai'r Catalog Webb Ivory fod wedi cyrraedd pawb erbyn hyn. Mae Phyllis ei angen yn ddiffael erbyn Tachwedd 1af a diolchir i bawb am y gefnogaeth. Bydd rhai o'r aelodau yn rhannu dŵr i redwyr Marathon Eryri ym Mhen Pass fore Sadwrn, Hydref 25. Gobeithir cynnal pnawn cymdeithasol i ddathlu'r Nadolig yn y Neuadd Gymuned ar ddydd Mercher, Rhagfyr 17 am 2.30. Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul Bosra

Ar Hydref 19eg cynhaliwyd Sul y Teulu - Sul o Ddiolchgarwch - am 2.00 o'r gloch gydag aelodau o'r Ysgol Sul a'r athrawon yn cymryd rhan. Braf iawn oedd gweld cynifer wedi dod, yn cynnwys cyn aelodau'r Ysgol Sul ynghyd a'u plant bychain. Rhaid canmol y plant i gyd am eu gwaith clodwiw, y darlenniadau a'r caneuon bywiog. Fe fwynhaodd pawb yr eitemau offerynol gan Aron a Twm. Bu'n gyfle i ddiolch ac i longyfarch Mr Evie Wyn Jones ar dderbyn y Fedal Gee yn ddiweddar. Cafwyd Te Parti wedyn yn y Neuadd Gymuned gyda theisen arbennig i Mr Jones. Dymunir diolch i Jean a'r rhai fu'n brysyr yn y gegin ac i'r rhieni a ffrindiau am baratoi gwledd o deisennau. Diolchir hefyd i bawb am y casgliad ariannol tuag at yr Ysgol Sul.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, Tachwedd 9fed, am 10.00 y bore. Diolch Dymunir diolch i Swyddogion Eglwys Santes Helen am gael defnyddio'r Neuadd i fwndelu'r Eco fore Gwener, Hydref 3ydd.



CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)



Llongyfarchiadau i Ffion, merch Dennis a Julie Jones, Rhos y Grug a Warren Priestley, mab John a Clare Priestley, Benoni, De Affrica, ar achlysur eu priodas ar y 6ed o Fedi. Siân a Llinos, chwiorydd Ffion, oedd y morwynion a dathlwyd y briodas gyda gwledd arbennig yn y Felin, Pontrug. Mi dreuliodd y ddau eu mis mêl ym Mauritius. Maent, ar hyn o bryd yn byw yn Windermere, Cumbria ond, gan fod Warren wedi llwyddo i gael gwaith yn lleol byddant yn ymgartrefu yn y Waunfawr cyn bo hir. Dymuniadau gorau i'r ddau yn eu bywyd priodasol.



76

grid

dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics

- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service

E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202



T4U (2)

Eleni y mae Ysgol Brynrefail yn cefnogi elusen newydd T4U a sefydlwyd gan Dave Cook a sefydlodd Operation Christmas Child (Elusen Plentyn y Nadolig) yn y 90au. Eu hamcanion yw 'cefnogi a chryfhau cymunedau ar draws y byd a grymuso plant i ddilyn eu breuddwydion a thorri'r mowld gan ganolbwyntio yn bennaf ar wlad Rwmania'.

Yr ydym yn ddiolchgar i Sioned, Kerry, Lois ac Elain am eu gwaith trylwyr yn coginio a threfnu danteithion gafodd eu gwerthu ynstod amser egwyl ar ddydd Gwener 3ydd Hydref 2-14.

Dehreuad da yn wir i greu cronfa. Ac fel y gwelwch o'r llun cafodd Mrs Lowri Roberts waith caled yn dewis pa un i brynu!! (Yn y diwedd dewisodd ddau!!!)

Yr ydym yn ddiolchgar hefyd i William, Rhidian, Meleri, Elan, Emma a Wil am eu gwaith trylwyr hwythau yn coginio a threfnu'r danteithion gafodd eu werthu yn ystod egwyl dydd Iau yr 2il o Hydref. Ac fel y gwelwch o'r llun cafodd Mrs Dobbins hefyd waith caled yn dewis pa un i'w brynu – yn y diwedd dewisodd hithau ddau.



Dodge Ball

Osgoi'r bêl yw diben y gêm lle mae chwaraewyr ar ddau dîm yn ceisio taflu peli ar ei gilydd wrth osgoi cael eu taro eu hunain. Yn yr Unol Daleithiau mae'r gêm yn cael ei chwarae fel arfer ymysg plant 6-12 yn yr ysgol elfennol. Fodd bynnag, yn rhyngwladol mae'r gamp hefyd wedi dod i'r amlwg fel gêm ysgol ganol boblogaidd, ysgol uwchradd ac hwaraeon y coleg. Mae hefyd yn boblogaidd mewn lleoliadau anffurfiol ac yn aml yn cael ei chwarae ar iard chwarae, mewn campfa neu mewn cynghreiriau hamdden a drefnwyd.

Mae llawer o amrywiadau o'r gêm ond yn gyffredinol prif amcan pob tîm yw dileu pob aelod o'r tîm arall drwy eu taro gyda pheli taflu, dal pêl taflu gan aelod o'r tîm arall, neu eu gorfodi i symud y tu allan i ffiniau llys pan fydd pêl yn cael ei thaflu atynt.

Ond! Yr oedd cyfle hefyd, yn Ysgol Brynrefail, i aelodau o'r Chweched Dosbarth dalu'r pwyth yn ôl am ambell farc isel ar waith yn y gêm yn erbyn y staff.

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”

Llond Ceg



Mae'r rhaglen newydd ar S4C, 'Llond Ceg' gan Green Bay Media, yn ffocysu ar y problemau mae plant a phobl ifanc Cymraeg yn wynebu heddiw. Bydd y bobl ifanc yn trafod eu problemau gyda chyn-aelod o dîm brecwast Radio 1, Aled Haydn Jones.

Ac yn wir fe aeth criw o Ysgol Brynrefail i ddarlledu ar gyfer y rhaglen a fydd yn cael ei darlledu rhywbryd ym mis Ionawr 2015.

Dywedodd un o'r criw, Elan Llwyd Jones, 'Yr oedd yn bawn llawn hwyl ac yn brofaid gwahanol ond buddiol.'



Gêm Bêl-droed Apêl Gwion

Bu rhaid cuddio eich clustiau dan eich dwylo wrth i dîm y staff gropian i'r cae cymaint oedd son crudcymalau yn clecian a llinyn gân yn gwichian.

Ond, chware teg, cafwyd gêm gyffrous iawn yn erbyn myfyrwyr y chweched dosbarth er bod cefnwr canol y staff yn ddygn.

Bu brwydro caled ac ambell dacl ffyrnig ond hefyd yr oedd doniau'r ddau dîm yn serenennu ac fe sgoriwyd wyth gôl a sgôr gyfartal a gafwyd ar ddiwedd y gêm.

Yr oedd ambell un yn nhîm y chweched yn meddwl mai fo oedd seren y gêm. Yr oedd ambell un yn nhîm y staff yn meddwl mai fo oedd seren y gêm. Ond roedd y dorf yn gytun ar ôl iddo sgorio 'worldie' –

'Un Iwan Machno, does dim ond un Iwan Machno

Un Iwan Machno...

Brysia wella Gwion. Mae tîm y staff angen cefnwr chwith o safon!



Bore Coffi MacMillan

Y bore coffi byd eang yw digwyddiad codi arian mwyaf Macmillan, lle mae'r elusen yn gofyn i bobl ledled y DU i gynnal bore coffi a chodi arian ar gyfer pobl sy'n byw gyda chanser. Eleni yn Ysgol Brynrefail yr ydym yn ddiolchgar i Shannon, Lilac, Robbyn, Megan E., Megan G., Bethan, Rhea, Meleri a Katie ma drefnu'r bore coffi ac i bawb a gyfrannodd yn hael trwy goginio cacenni ysblennydd.

Fe fyddai Mary Berry a beirniad gwrywaidd y 'Great British Bake Off' wedi bod yn falch ofnadwy gyda'r arddangosfa o ddanteithion. Yr oedd Mr Ian Pritchard wrth ei fodd gyda chacen ym mhob llaw ac yn llygadu gweddi y bwrdd!

Ar ddiwedd y dydd fe godwyd £163.00 tuag at yr achos da.

PRISCILLA YN GANT OED - Rhan 2
PRIODI A DECHRAU BYW YN WYLFA

Deuddeg oed oedd Priscilla pan symudodd y teulu o'r Tŷ Capel i Water Street yn Llanberis, a hynny i ofalu am ewythr ei mam, sef Hugh Ioan Williams. Yn bymtheg oed ymadawodd â'r ysgol a chafodd waith tymhorol yn un o westai Llanberis. Aeth ei theulu yn ôl i'r Tŷ Capel pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed. I'r chwarel yr aeth ei brawd John Moi yn bedair ar ddeg oed ond trawyd ef yn wael a threuliodd gyfnodau mewn ysbytai ac ar ôl gwella dychwelodd i'w waith.

Cyfarfu Priscilla â'i gŵr, Moss, a hanai o Gefn Coch yn Neiniolen, yn Llanberis ac roedd yn berchen ar foto beic. Pan briododd y ddau yng Nghaernarfon, roedd Priscilla yn un ar hugain oed a Moss ddwy flynedd yn hŷn. Y gwas priodas oedd ei brawd John Moi a'r forwyn oedd ei chwaer Laura a threuliwyd gweddill y dydd priodas yn Llandudno cyn ymgartrefu yn rhif 7 Rhes Marian yn Neiniolen. Ar ôl blwyddyn a hanner, symudodd y ddau i aelwyd Wylfa pen inclên a chanfod y tŷ mewn cyflwr da a hawdd oedd setlo yno. Tair gwaith yr wythnos byddai Moss a Priscilla yn neidio ar y motor beic i fwynhau'r ffilmiau ym mhictiwr Llanberis; aethant ar y motor beic hefyd yn gyson i Blackpool a lleoedd eraill. Ond roedd tynfa Gwaun Cwm Brwynog yn galw o hyd ac am bedwar haf bu Priscilla yn gweithio yn stesion Hebron fel "station mistress"; hi fyddai'n tynnu'r points ar gyflog o bunt a phum swllt gan fynd ar y bws yn ddyddiol o ben Gallt y Foel i Lanberis. Ar ôl wyth mlynedd o fywyd priodasol, ganwyd

Eurwen a daeth Alwyn dair blynedd yn ddiweddarach.

Yn anffodus, colodd Moss ddefnydd o un llygad yn y Chwarel pan aeth darn o haearn i mewn iddi. Oherwydd hyn "gweithio wrth y dydd a wnâi" sef term chwarelyddol am ddynion oedd yn cyflawni gwahanol orchwylion ac yn cael eu talu wrth y dydd yn hytrach nag yn ôl y cynnyrch neu ar gontract fel y chwarelwr. Un o ddyletswyddau Moss oedd codi craeniau gyda pheiriant. Cofiaf yn dda pan oeddem yn blant, yn eistedd ar wal Ty'n y Fawnog yn Ninorwig yn disgwyl Moss o'r Chwarel er mwyn gofyn iddo pa ffilm oedd yn cael ei dangos ym mhictiwr bach Deiniolen. Yr un atebiad gawn bob tro ganddo "ffilm gowbois gwerth ei gweld hogia, dewch draw heno." Am flynyddoedd, ar nosweithiau'r wythnos, roedd Moss yn gweithio yn y pictiwr yn hel ticedi a defnyddio y golau torsh. Roedd wedi gwirioni, fel ninnau blant, yn lân hefo ffilmiau cowbois a byddai'n rhoi marciau allan o ddeg i bob un ohonynt ar bapur. Yr anfarwol John Wayne a Buck Jones oedd ei ffefrynnau. I aelwyd Wylfa yr aem fel plant i wyllo rhaglenni cowbois ITV. Pan oedd yn ddiwrnod braf byddai'r llun yn wael ond os yn wlyb a thamp byddai'n well. Yno yr oeddem unwaith a'r tywydd yn sych a braf a'r llun yn bur wael a Moss yn cellwair pan ddywedodd "pa un ohonoch sydd am daflu dŵr o'r bwced tu allan dros yr 'erial'! Yng Nghapel Wesleiaidd y Tabernacl sef addoldy bychan a hardd ynghanol Deiniolen roedd y teulu'n addoli am

flynyddoedd ac roedd Moss yn athro Ysgol Sul yno. I greu diddordeb plant ei ddosbarth ar y dechrau a'u tawelu, soniai am ffilmiau cyn eu harwain i bethau dyfnach. Ar ôl cau'r Capel, aeth Priscilla i Gapel Dinorwig. Bu farw Moss ar Llun y Pasg 1987 yn 74 mlwydd oed ar ôl ymddeol o'r Chwarel yn 65 oed.

Un o brif ddiddordebau Priscilla oedd garddio ac mae'n mynd am dro o hyd ar hyd yr ardd fawr. Pan oedd stad y Faenol yn gwerthu eu heiddo, megis tai ag ati, dyma ofyn yn y Wylfa iddynt daflu bwyell o ddrws y tŷ cyn belled ag yr oedd modd. Y fan y cyrhaeddodd y fwyell oedd ffin yr ardd a gawsant ac ers hynny mae'n werth ei gweld.

HEDDIW

Collodd Priscilla ran o'i golwg a dyna pam mae bellach yr eistedd rhyw droedfedd o'r set deledu. Cyfresi sebon yn y ddwy iaith aiff a'i bryd. Arferai ddarllen dipyn ers talwm. Bydd yn deffro bob bore am chwech i sŵn Radio Cymru ac mae'n hoff o ganu Cymraeg gyda Hogia'r Wyddfa a Rhys Meirion yn bennaf.

Mae'n mwynhau iechyd da ac mae'r cof yn fyw ac nid yw'n llyncu unrhyw dabledi o gwbl. Synnodd y meddyg yn ddiweddar o glywed hyn. Gyda hi ar yr aelwyd y mae Alwyn,

y mab, sydd wedi ymddeol ers tair blynedd o'r Bwrdd Dŵr a gwna bopeth i'w fam gan gynnwys paratoi bwyd maethlon. Ers blynyddoedd, uwd yn unig gaiff i frecwast ac fe aiff i gerdded yn hamddenol weithiau ar y ffordd y tu allan i'r tŷ ac i ymweld â'r ardd. Daw Ann o Benisarwaun, ei nith, heibio bob pythefnos i fynd â hi yn y car i Fangor. Mae gan Alwyn dri deg acer gerllaw ac arferai gadw defaid a gwartheg ar y tir caregog ond bellach cadw wyth o geffylau a phump o fulod wna - ac enwau'r mulod yw Snowy, Penny, Jini Wyn, Moli Wyn a Hana ac maent yn werth eu gweld. Cyn i mi adael yr aelwyd daeth Alwyn â tatws o'r ardd i mi a hanner dwsin o wyau. Estynnodd Priscilla lun wedi ei fframio o'i mam a'i osod ar y bwrdd. Ei mam a wnaeth y cwbl iddi hi a'r teulu mewn dyddiau hynod anodd ac yn ddyddiol mae Priscilla yn ei chyfarch.

'Wyddost ti,' meddai wrthyf, 'rwyf yn Hebron bob dydd hefo mam.' I Dŷ Capel Hebron aiff ei meddwl ac i'r gymdeithas yng Ngwaun Cwm Brwynog a ddisgrifiwyd gan un o'r Gweinidogion, y Prifardd R. Bryn Williams fel 'un o fannau anwylaf y ddaear' ac, wrth ddymuno Pen-blwydd Hapus i Priscilla yn gant oed, geiriau'r Prifardd i Gapel Hebron yn y cwm cyfareddol sy'n adlais o'r gorffennol i Priscilla o hyd:

*"Gwae ddyfod dydd dy ddiweddu
yng Ngwaun cwm brwynog,
a dyfod o'r gwynt i gwyno'i alargan
i'r cymun a fu.*

*Eithr erys hyd awr fy niweddu
atgofus dangnefedd dy gwmniaeth,
ac ni thau y lleisiau
a lŷn wrth dy furiau briw."*
Idris Thomas



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

2/3 RHANDIR I'W		
LLOGI		
Mewn gardd breifat yn		
Waunfawr. Ar gael ar unwaith.		
Telerau i'w trafod.		
Ffoniwch: 07767476687 am		
sgwrs.		



Diolch i'r Parch W.J. Lewis am anfon y llun ac am y wybodaeth.

Profedigaeth a Cholled Yn y rhifyn olaf o'r Eco bu imi grybwyll am farwolaeth drist Mrs Heulwen Jones, 6 Maes Eilian gynt. Bu i Heulwen gael magwraeth drist iawn – pan oedd tua 10 oed bu farw ei mam, sef y ddiweddar Mrs Maggi Jones. Bu iddi hi a Myra, ei chwaer, fyw hefo'u tad, Mr Idwal Jones, wedyn ond ar Fawrth 27 1949 cafodd y tad ei ladd yn y chwarel yn 47 mlwydd oed. Daeth rwb o'r bonc uwchben a disgyn ar ei ben a bu farw yn y fan a'r lle, nid oedd gobaith iddo.

Ar y pryd yma yr oedd Myra yn gwneud ymarfer dysgu yn Ysgol Dinorwig o'r Coleg Normal, a Heulwen yn ddisgybl yn ysgol Higher Grade, Caernarfon. Wedi'r brofedigaeth fawr bu i Myra gartrefu hefo'i hewythr, sef brawd eu tad, yn Tyddyn Forgan, Llanddeiniolen, ac fe aeth Heulwen i fyw at y teulu yn Neiniolen. Ond nid oedd Heulwen yn hapus yno felly fe aeth i fyw at ei modryb i Gaernarfon, lle y cafodd gartref hapus a dal i fynd i'r ysgol yng Nghaernarfon.

Ar ôl dyddiau ysgol aeth i weithio i siop ddillad ym Mhenmaenmawr ac yna i'r Rhyl. Fe fu iddi briodi yn 1964 ac fe fuasai wedi dathlu ei Phriodas Aur eleni. Ganwyd iddi dri o blant, sef Anna, David a Gavin a yr oedd yn meddwl y byd ohonynt.

Tua tair blynedd yn ôl bu iddi ymddangos ar y teledu. Hi oedd y nain yn Snowdonia 1890. Yn yr un rhaglen yr oedd David a'i wraig, Catrin hefyd, a Heulwen wrth ei bodd. Yr

oedd Heulwen wedi bod yn wael rai blynyddoedd yn ôl a phawb o'r teulu yn meddwl ei bod wedi cael iachad ond, yn drist iawn, ei iddi gael estyniad oes, gwellhad dros dro a gafodd. Cafodd ei tharo yn wael yn ystod y flwyddyn ac fe ddaeth y salwch creulon yn ôl pryd y bu iddi oddef yn arw iawn, ac ar Fedi 18 daeth y diwedd. Rhyddhad i Heulwen ond anferth o golled i'r plant a Myra, ei chwaer.

Bu yn gofalu yn ardderchog am Myra. Gan fod Myra mewn crtref yr oedd Heulwen yn gwneud y cyfan iddi, bu fel mam iddi. Yr oedd y plant yn gannwyll ei llygaid, ac yr oedd bob dydd yn galw i weld Dei, Catrin a'r plant. Mae yn rhaid dweud mai y plant oedd ei bywyd a hwythau yn driw iawn iddi hithau.

Yr wyf newydd gael sgwrs hefo un o'r Bedyddwyr ac yr wyf yn deall erbyn hyn yn mai aelodau o gapel Sardis oedd teulu Tyn y Fawnog Uchaf.

Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Myra a phlant Heulwen a'r teulu oll, gan fod dipyn ohonynt yn byw ym mro'r Eco. Gobeithio y cewch nerth ac iechyd i ddal y golled drom. Mae nerth i'w gael oddi uchod. Mae atgofion lu gennyhch ohoni a gobeithio y cewch nerth wrth gofio y dyddiau gorau. Yn meddwl llawer adanoch 'Cwsg a gwyn dy fyd, Heulwen.'

Fe fu'r angladd yn Eglwys Henllan. Yr oedd yr eglwys yn orlawn a rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent yr eglwys a chafwyd lluniaeth yn Neuadd yr Eglwys.

Collais Angladd Albert Thomas (Buarth Newydd) a drwg gennyf am hynny. Mae ei farwolaeth wedi fy atgoffa am y ddrama a gyflwynwyd gan rai o ddisgyblion Ysgol Deiniolen yn y flwyddyn 1936. Pwy yw rhain?

Mae tri ohonom o Ddinorwig: Albert yw'r plismon; Robert Hugh Caerfoel yw'r un bach a mwgwd ar ei lygaid; fi, William John Davies, yw'r un hefo locsyn a chlogyn colegol; ar y chwith eithaf mae Ronnie Mercer; y ferch yw Dilys Gwennlian; agosaf ati mae Griffith Peris, yna Bobby Greenley hefo'r het silc a'r ffon; y nesaf mewn trowsus byr yw Rolant Jones; y tu ôl i mi mae William John Closs.

I ble'r aeth y blynyddoedd – a'r criw i gyd ond un!

Profedigaethau Yn anffodus a chyda thristwch mawr y mis yma eto yr ydym yn gorfod cofio am ddau o blant yr ardal. Cyfeirio yr wyf at Mr Harry Jones, Tan y Fron Uchaf, mab y diweddar Mr a Mrs O. Jones a brawd Dafydd ac Owie, hwythau wedi rhagflaenu Harry. Aelodau o Gapel MC Dinorwig oeddynt. Roedd Harry wedi cartrefu yng Nghaernarfon ac wedi gweithio am flynyddoedd yn y Cyngor Sir Yr oedd Harry wedi bod yn flaenor ers 1957. Roedd yn aelod yn Eglwys Seilo ac wedi bod yn weithgar iawn yno. Pob tro yr oeddwn yn mynd i Seilo byddwn yn sicr o gael sgwrs hefo Harry ac yr oedd yn syth yn ôl yn Ninorwig. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrfael a Helen, ei wraig, a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Parch Emlyn, Tan y Fron Isaf Ganwyd Emlyn yn Tan y Fron Isaf ac yn gymydog i Harri. Yr oedd i Emlyn ddwy chwaer, sef Phyllis a Gwenda. Symudodd Emlyn o Ddinorwig at deulu ei fam i Ddyffryn Clwyd ac oddi yno yr aeth i'r Weinidogaeth. Un o blant Sardis oedd Emlyn. Ar ôl mynd i'r Weinidogaeth aeth yn weinidog i'r de.

Cydymdeimlwn yn fawr â Phyllis a Gwenda yn eu colled fawr o golli brawd annwyl iddynt.

Damwain Drwg gennym ddeall fod Mrs Hannah Mary Roberts, Tŷ'r Ysgol, wedi syrthio yng Nghaernarfon ac wedi torri ei chlun. Y mae, ar hyn o bryd, wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Hannah, gobeithio dy fod yn gwella ac y gwelwn di adref yn reit fuan a chofia, sgert mini y tro nesaf. Hwyl a brysia wella, mae dy le yn wag.

Dathlu y Cant Erbyn y daw'r Eco o'r wasg fe fydd Mrs Priscilla Williams, Wylfa, Peninclyn wedi dathlu ei chant oed. Un hwyliog a hapus iawn

yw Mrs Williams ac wedi bod yn aelod ffyddlon o Eglwys MC Dinorwig hyd nes y bu i'r capel gau o dan brotest bedair blynedd ar ddeg yn ôl.

Pryd bynnag y byddaf yn galw neu'n rhoi caniad iddi ac yn gofyn sut y mae, yr ateb a gaf yw 'champion ac yn bwyta fel pe buaswn heb gael bwyd erioed ac yn cysgu yn gret.'

Nid yw Mrs Williams wedi anghofio ei thlodi. Bu iddi, pan yn blentyn, ddod o'r de i fyw i Dŷ Capel Hebron yng Ngwaun Cwm Brwynog ar lethrau'r Wyddfa. Byddai hi a'i brawd yn gorfod mynd i'r ysgol yn Llanberis a hynny ar bob tywydd a chan ei bod yn gorfod dringog allt i fynd adref yr oedd yn cymryd dipyn mwy o amser, felly fe welwch nad oedd Mrs Williams yn or-hoff o'r ysgol.

Bu iddi briodi hefo Moss, garddwr gwerth ei gael, ac os y byddai'n cael rhyw blanh igyn newydd byddai bob amser yn dod â thamaid ohono i mam. Roedd mam ac yntau yn ffrindiau oes. Ganwyd iddynt ddau o blant, Eirwen ac Alwyn. Mae Eirwen yn byw yng Nghlwt y Bont ond Als yn dal gartref hefo'i fam. Mae yn addoli ei fam ac yn gwneud popoeth iddi a hithau bob amser yn falch ohono ac yn ei ganmol yn ddiddiwedd. Chaiff hi byth gam tra bydd Als yn fyw. Mae yn gofalu am dân braf iddi pan yn codi ac uwd poeth i frechwast. Mae y ddau yn deall ei gilydd fel Sion a Sian. Als, wnei di byth ddifaru. Diolch am weld plentyn yn rhoi y lle cyntaf i'w fam bob amser.

Mrs Williams, gobeithio i chwi fwynhau eich cant a gobeithio am lawer blwyddyn arall o fywyd hapus. Als, diolch iti am dy ofal cariadus dros dy fam, fe fydd dy wobwr yn fawr.

Cofion Ein cofion fel ardal at Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch gynt, yng Nghartref Bryn Ffynnon, Bangor.

AR
OSOD

Tŷ 2 LOFFT AR OSOD

—YN LLANBERIS—

Am fwy o fanylion
cysylltwch â 07747843944



Cyflwynwyd sic o £250 yr un i Apel Eleanor a Hosbis Yn Y Cartref. Diolch yn fawr i Eleanor Jones, Ann Williams a Tudur Owen am dderbyn y siciau ar ran yr elusennau gan aelodau o bwyllgor Treialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch.



Dymuna Llinos a Dafydd Fron Rhedyn, ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbynion nhw ar enedigaeth eu mab, Gruffudd Elidir Pritchard, brawd bach newydd i Manon, Miriam a fi!

GŴYL FFAIR NANT (Medi 14 – 20)





Treialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch 2014

Ar ddydd sadwrn y 16eg o Awst, daeth 85 o gystadleuwyr i gymryd rhan yn Nhrefalon Cŵn Defaid Nant Peris a'r cylch. Daeth cystadleuwyr o Ewrop a thu hwnt - yn cynnwys dwy o Ganada! Y Treialon mwyaf llwyddiannus ers dros ddeng mlynedd. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a wirfoddolodd ar y cae ar y diwrnod.

AGORED

- 1) E.W.Edwards, Ruthin, Juno 11
- 2) Pennant Williams, Yr Wyddgrug, Sweep 12 OLF
- 3) Ieuan Williams, Siop Cilan Abersoch, Tess 12
- 4) Medwyn Evans, Llanfachreth Dolgellau, Jan 13
- 5) Morris Ifans, Pentrefelin, Ffan 17
- 6) Pennant Williams, Yr Wyddgrug, Gem 18

AIL DDOSBARTH

- 1) E.W.Edwards, Ruthin, Fflei 13
- 2) Hafgan Puw, Llanaber, Gelert 17
- 3) H.Owen, Caergeiliog, Rob 19
- 4) J.R.Griffith, Talysarn, Jet 21
- 5) Gwyn Lightfoot, Llandegla, Jess 22

DOSBARTH LLEOL

- 1) Bryn Griffiths, Llanrug, Meg
- 2) Dafydd Pritchard, Nant Peris, Fflei
- 3) John Pritchard, Nant Peris, Joe
- 4) John Pritchard, Nant Peris, Fflei
- 5) Michael Williams, Llwyncoed, Nel

CWPAN COFFA ALAN ROBERTS (agored) - E.W.Edwards, Ruthin, Juno

CWPAN WAVELL ROBERTS (ail ddosbarth) - E.W.Edwards, Ruthin, Fflei

CWPAN DAN 25 (ail ddosbarth) - Marc Owen, Waunfawr, Rob-in

TARIAN GWESTY'R FICTORIA (lleol gorau yn yr ail ddosbarth) - John Pritchard, Nant Peris, Joe

CWPAN LLWYNCOED - Anne Haag, Yr Almaen, Kate

CWPAN RHEILFFORDD YR WYDDFA (lleol) - Bryn Griffiths, Llanrug, Meg

CWPAN R.WILLIAMS MYNYTHO (dan 25 oed, lleol) - Bryn Griffiths, Llanrug, Meg

TLWS TITHEBARN (dros 50 oed lleol) - John Pritchard, Nant Peris, Joe

CWPAN GWESTY DOLBADARN (lleol gorau Nant Peris/Llanberis) - Dafydd Pritchard, Nant Peris, Fflei



Enillydd y Dosbarth Agored

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaethwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Royal Victoria Hotel LLANBERIS

www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

GŴYL FFAIR NANT (Medi 14 – 20) Dydd Sul (14 Medi, 2014)



Yn dilyn diwrnod o brysurdeb yn addurno Eglwys St. Peris, cafwyd sioe flodau penigamp trwy'r wythnos. Cafwyd ymateb syfrdanol i'r apêl am roddion o flodau. Mae aelodau'r Eglwys yn wirioneddol ddiolchgar i bawb am eu cyfraniad gwerthfawr a'u cefnogaeth.

Nos Fawrth (16 Medi, 2014)

Noson llawn hwyl yng nghwis Ffair Nant yn Nhŷ'n Llan.

Nos Fercher (17 Medi, 2014)

Cystadleuaeth pwl. Yn dilyn noson ddifyr iawn, enillydd y ddwy darian oedd Aled Closs-Davies a David Compton.

Nos Wener (19 Medi, 2014)

Noson i ganu Carioci yng nghwmni pawb yn Nhŷ'n Llan a chafwyd noson gofiadwy iawn - diolch i'r plant a'r oedolion am gyfrannu ac am eu lleisiau swynol! Mae'n wir fod na gantorion da iawn yn Nant a'r fro! Dydd Sadwrn (20 Medi, 2014)

Cafwyd diwrnod heulog a llawn hwyl trwy'r dydd! Roedd y cae'n llawn o weithgareddau gan gynnwys: Gemau Gill, "Clwc clwc clwc clwc clwc, ac i ffwrdd a hi!" a "Procio'r Praidd!"; Cystadleuaeth Celf

a Chrefftau yn y babell fawr; barbeciw ardderchog Aled a Gemma; gweithdai drymiau a sgiliau syrcau a mwyl!! Daeth y diwrnod i ben yn Nhŷ'n Llan (unwaith eto!) gydag adloniant a chwmni da y bobol leol. Dymuna aelodau Pwyllgor Gŵyl Ffair Nant ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr wythnos mewn unrhyw fodd - roedd eich cefnogaeth hael yn arbennig iawn. Hoffem ddiolch yn arbennig i Rhian a Meirion Pritchard, Tŷ Isaf, John a Lin yn Nhŷ'n Llan, Gwenda Roberts, Preswylwyr Plas Pengwaith Llanberis, plant a staff Ysgol Dolbadarn, John Ellis am arddangos lluniau o Nant Peris 'Ddoe a Heddiw' a'i phreswylwyr dros y blynyddoedd, a busnesau lleol am eu rhoddion hael i'r gystadleuaeth raffl.

Mae'n bleser mawr hefyd i gyhoeddi fod y Gŵyl Ffair Nant wedi gallu cyflawni un o'i brif amcanion, sef rhoddi £100 yr un i ddwy ferch o Nant Peris, Elin Tomos a Kate Pritchard sy'n dechrau ar eu blwyddyn gyntaf yn astudio tuag at radd israddedig yn Aberystwyth eleni - pob lwc gyda'ch astudiaethau genod a gobeithio bydd yr arian yn help.

Mwy o ganlyniadau

Categori 1: Coginiaeth

Oed/Dosbarth: Ysgol Gynradd

Eitem: Chwe chacen cwpan wedi eu haddurno 1af

Ioan Williams

• 2il Joseff Closs-Stacey

• 3ydd Sian Elidir Jones & Erin Jones

Categori 2: Coginiaeth

Oed/Dosbarth: Ysgol Uwchradd

Eitem: Cacen sbwng wedi ei addurno 1af Dim

2il Teulu Lampard

3ydd Dim

Categori 3: Celf a Chrefft

Oed/Dosbarth: Ysgol Gynradd

Eitem: Gwnewch lun ar blât papur Meithrin

• 1af Ela

• 2il Emily

• 3ydd Ceirion

Derbyn

• 1af Esme Neill

• 2il Kathy John

• 3ydd Sophie Keep

Blwyddyn 1

• 1af Logan

• 2il Wil

• 3ydd Cynan

Blwyddyn 2

• 1af Morgan

• 2il Ieuan

• 3ydd Matthew

Blwyddyn 3

• 1af Joseff

• 2il Jamie

• 3ydd Awel

Blwyddyn 4

• 1af Cadi

• 2il Anwen

• 3ydd Swyn

Blwyddyn 5

• 1af Jac Petch-Jones

• 2il Jack Booth

• 3ydd Mali Jones

Blwyddyn 6

• 1af Ruby Wood

• 2il Caio Price

• 3ydd Iwan Aled Williams

Categori 4: Celf a Chrefft

Oed/Dosbarth: Ysgol

Uwchradd

Eitem: Unrhyw eitem o gelf neu grefft Dim ymgeiswyr

Categori 5: Diodydd

Oed/Dosbarth: Oedolion yn unig

Eitem: Unrhyw ddiod alcoholig • 1af

Carol Houston

• 2il Linda Beaven

• 3ydd Teulu Lampard

Categori 6: Bara Brith

• 1af Ian Hughes

• 2il Teulu Lampard

• 3ydd Rhian Pritchard

Categori 7: Torth wen

• 1af Dim

• 2il Steven Jones

• 3ydd Dim

Categori 8: Cacen newydd-deb

• 1af Sioned Owen

• 2il Nia Williams

• 3ydd Teulu Lampard

Categori 9: Jam, jeli neu

farmalêd

• 1af David Compton

• 2il Uned 3, Plas Pengwaith Cartref Gofal Preswyl, Llanberis

• 3ydd Pat Cae Coch

Categori 10: Catwad neu bicl

• 1af P a m

Mainwaring

• 2il Pat Cae Coch

• 3ydd Dim

Categori 11: Trefniant blodau sy'n ymgorffori blodau gwyllt a deilant

• 1af Pat Cae Coch

• 2il Amy King

• 3ydd Shirley Davies

Categori 12: Unrhyw waith ffotograffiaeth (lliw neu du a gwyn) yn seiliedig ar y thema "Bywyd Gwyllt Lleol"

• 1af Hefin Owen

• 2il Uned 3, Plas Pengwaith Cartref Gofal Preswyl, Llanberis

• 3ydd Uned 3, Plas Pengwaith Cartref Gofal Preswyl, Llanberis

Categori 13: Unrhyw eitem ddiweddar wedi ei grosio, wau neu bwyth croes

• 1af Pam Mainwaring

• 2il Elsi Stevens

• 3ydd Beverley Anwyl

Categori 14: Clustog gydag unrhyw batrwm

• 1af Dim

• 2il Carol Houston

• 3ydd Dim

Categori 15: Unrhyw ddarn diweddar o waith coed, gwydr

neu glai

• 1af Pat Cae Coch

• 2il Karen Jones

• 3ydd Nol Brien

Categori 16: Unrhyw eitem ddiweddar o emwaith

• 1af Linda Beaven

• 2il Pat Cae Coch

• 3ydd Dim

Categori 17: Unrhyw lysieuyn gydag edrychiad doniol

• 1af Clifford Davies

• 2il Dylan Owen

• 3ydd Teulu Lampard

Categori 18: Gwnewch ddafad rydd-sefyll o unrhyw faint!

• 1af Sue Niebrzydowski & Helen Wilcox

• 2il Teulu Lampard

• 3ydd Carol Houston

Categori 19: Paentiad

• 1af Plas Pengwaith Cartref Gofal Preswyl, Llanberis

• 2il Trigolion Plas Pengwaith Cartref Gofal Preswyl, Llanberis

• 3ydd Plas Pengwaith Cartref Gofal Preswyl, Llanberis

Gwobr Gorau yn y Sioe yn mynd i: Pam Mainwaring

Enillwyr cystadlaethau limrigau:

Limrig Gorau yn y Gymraeg: Bethan Williams

Limrig Gorau yn y Saesneg: David Compton



PRIODAS Dydd Gwener, 4ydd o Fedi ym Mhlas Maenan, Llanrwst, priodwyd Bryn Evans, Min y Don a Kim Hames o Hyde, Manceinion. Byddant yn ymgartrefu yn Hyde lle mae Bryn yn ymchwilydd twyll a Kim yn dditectif. Dymuna'r ddau ddiolch i'r teulu a chymdogion am yr holl gardiau a rhoddion dderbyniasant ar eu priodas. Ein llongyfarchiadau calonog iddynt.

SEFYDLIAD Y MERCHED Yng nghyfarfod mis Medi cawsom noson ddifyr iawn yng nghwmni Lowri Prys Roberts, Brynrefail. Dan y teitl "Digwyddiadau a Chysylltiadau Rhyfeddol" cawsom ein tywys i hanes pentref Brynrefail dros y blynyddoedd – pentref unigryw ar lawer ystyr ac yn dal i fod felly – ble mae unig Sefydliad y Merched y fro yn dal i gyfarfod ar safle neitlthuol iawn! Adroddwyd am gysylltiadau arbennig y pentref â'r bardd Dilys Cadwaladr, ynghyd â chysylltiadau personol rhyfeddol i gloi'r sgwrs. Fe fwynhawyd y noson yn fawr iawn a diolchwyd yn gynnes i Lowri gan y Llywydd, Pat Jones, am yr holl hanes diddorol.

Daeth nifer fawr o aelodau i gyfarfod Hydref y Ffederasiwn yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Gan fod trawsblannu arennau yn un o'r materion sydd dan drafodaeth gan Sefydliad y Merched yn genedlaethol, gwahoddwyd Ken Jones, Llanberis i ddod i roi sgwrs, gan fod ganddo brofiad o gael dau drawsblanid ei hun. Yna i'n difyrru mwynhawyd Pedwarawd y Fenai – y pedwar yn rhan o gwmni Gilbert a Sullivan, Llan drillo-yn-Rhos.

Ferched, os ydych yn awyddus i gadw yn heini, dewch i'r Ganolfan yn Llanberis ar brynghawn dydd Mercher o 1.30 i 2.30yp. Croeso i bawb.

Yng nghyfarfod y gangen ym Mrynrefail nos Iau, 18fed o Hydref, Pat Jones, y llywydd oedd yn dangos gwahanol ffyrdd o drefnu blodau. Gwnaed raffl am y chwe trefniant ar ddiwedd y noson.

Yn ein cyfarfod nesaf ar Dachwedd yr 20fed, bydd Julia yn dod atom i arddangos gwaith siwgrwr eisin ar gyfer cacennau Nadolig. Bydd Cinio Nadolig y gangen yn y Caban, Brynrefail nos Iau, Rhagfyr 18fed

YREGLWYS BRESBYTERAIDD

Y Gymdeithas. Yn ôl yr arfer yng nghyfarfod mis Hydref o'r Gymdeithas, i gloi gweithgareddau'r tymor, aeth yr aelodau ar ymweliad â man diddorol. Eleni trefnwyd i ymweld â Gwinllan Pant Du, Penygroes, bnawn Mawrth, Hydref 7fed. Cafwyd croeso cynnes gan y perchnogion a thywyswyd pawb o amgylch y winllan a'r perllannoedd. Roedd yn brynghawn hynod o braf a oedd yn ychwanegu at y mwynhad o sylwi a gwrandao ar hanes sefydlu y fangre arbennig hon a llawenhau yn ei llwyddiant.

I ddiweddur prynghawn mwynhawyd lluniaeth ysgafn a manteisiodd llawer ar deithio ymhellach a mwynhau golygfeydd a manau hanesyddol o bwys yn Nyffryn Nantlle. Diolch i Gwyn Hefin Jones am drefnu'r daith ac i Dafydd Ellis am holl drefniadau'r tymor.

Sul Diolchgarwch Nos Sul Hydref 19eg, cynhaliwyd yr oedfa Diolchgarwch flynyddol. Daeth cynulliad cryno ynghyd ac yn eu plith wŷr i gyn-weinidog yr Eglwys - y diweddar Barch Robert Williams - Robyn Williams a'i briod Olwen o Gaergybi. Cafwyd oedfa gynnes a bendithiol dan arweiniad y Parch Geraint Roberts, Porthaethwy.

Blychau Nadolig Byddwn fel eglwys eleni eto yn ymuno yn yr apêl flynyddol i baratoi a chasglu Blychau Nadolig y Plant. Croeso i bawb yn lleol i gyfrannu. Cysyllter â Lowri Prys Roberts.

Oedfaon Tachwedd

- 2: am 5.30 Oedfa dan nawdd yr aelodau "Cofio'r Rhyfel Mawr"
- 9: am 5.30 Parch Gwenda Richards, Caernarfon
- 16: am 2.00 Parch John Pritchard, Llanberis
- 23: am 2.00 Parch Gerallt Lloyd Evans, Bodorgan
- 30: am 5.30 Trefniant lleol

CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com



Gwasanaethau y Capel

Tachwedd 9ed am 2.00. Y Parch Marcus Robinson.

Tachwedd 16 eg am 2.00. Y Parch Trefor Jones, Caernarfon.

Tynfa mis Hydref £40 Jayne Lloyd, Tyddyn Cae (40); £25 Leti Williams, Refail (22); £15 Keith Jones, Bodawel (107); a £5 Einir Roberts, 3 Erw Wen (63).

Cydymdeimlo Anfonwn gydymdeimlad cywir at Huw Ceiriog a gollodd ei dad yn ddiweddar, ac i Alwyn Jones, Y Dderwen, sydd wedi colli ei chwaer yng nghyfraith.

Bore coffi Macmillan Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus iawn ar Fedi 27 yng Nghanolfan y Capel er budd cronfa Macmillan. Codwyd swm o £530, sydd yn anrhydeddus iawn i bentref cymharol fychan. Diolch i Llio Jones fu'n trefnu'r cyfan, ac i bawb a gyfrannodd drwy roi cacennau a bisgedi.

Pen-blwyddi arbennig Yn ddiweddar bu Beryl Roberts, Gerallt; Tony Griffith, Anedd; Wyn Jones, 12 Erw Wen a Huw Ceiriog, 4 Erw Wen yn dathlu pen-blwyddi arbennig, gyda sero yn dilyn y degawdau (gewch chi ddyfalu beth yw y rhif!!). Llongyfarchiadau a hir oes i bob un ohonoch.

Clwb y Merched Cafwyd cyfarfod cyntaf y gaeaf yng Nghanolafan y Capel nos Iau, Medi 25 pan gafwyd noson ddifyr yng nghwmni Richard Jones, Caernarfon, un o gyn drigolion y pentref. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Hydref 30ain yn y Ganolfan am 8 o'r gloch.


H. E. HUGHES A'i Feibion

Bwthyn Gadlys Llanberis



**GWERTHWR
GLO ac
OLEW GWRES
CANOLOG**

(01286) 870444



GOMER ROBERTS

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur

(01286) 870462 Symudol-07962 712368

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION MEDI 2014:

Cofnodion Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fawrth y 23ain o Fedi, 2014 am 7 yr hwyr.

PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Barry Davies, Eurig Druce, Olwen Gwilym, Iwan Harding, Bethan Holding (Cadeirydd), Derek Jones, Dafydd Roberts, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts,

Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriad: Gwilym Evans,

CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth yr 29ain o Orffennaf, 2014 fel rhai cywir, ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Swyddfa Bost:

Adroddwyd fod llythyr wedi ei anfon at y Swyddfa Bost, ac fod cais wedi dod am fwy o fanylion mewn perthynas a'r gwrthwynebiad i symud y swyddfa.

2. Landing:

Adroddwyd fod sbwriel yn cael ei gasglu ar hyd glannau Llyn Padarn pan fo hynny'n angenrheidiol.

3. Cae UEFA:

Adroddwyd fod y Clerc yn chwilio am rwydi newydd ar y goliau ar gae pob tywydd UEFA.

4. Parcio ar y Glaswellt:

Cafwyd llythyr oddi wrth CG yn nodi fod bwriad i roi llinellau melyn ger Gwesty Fictoria.

MATERION ERAILL:

1. Cae'r Ddôl:

Cafwyd cwynion eto am y cae. Adroddwyd fod gwersylla wedi bod ar y cae yn ystod cystadleuaeth ddiweddar a bod parcio anghyfreithlon a pheryglus hefyd yn ystod digwyddiadau mawr. Cafwyd rhai aelodau hefyd yn mynegi anfodlonrwydd nad oedd digwyddiadau mawr yn cael eu hysbysu yn ddigonol i'r pentrefwyr.

Wrth gwrs mae pawb yn derbyn y daw peth budd economaidd yn sgil y digwyddiadau, ond mae nhw hefyd yn golygu trafferthion yn enwedig yn lleol.

Soniwyd y dylai trefnwyr y digwyddiadau hysbysu'r cystadleuwyr fod digon o feysydd parcio addas gerllaw ac fod parcio anghyfreithlon ac mewn strydoedd cyfagos yn diflasu pobl leol.

Yn ôl BD roedd caniatad i wersylla wedi ei roi am fod hwn yn ddigwyddiad 24 awr. Doedd y gweithgaredd ddim wedi gwneud unrhyw niwed i'r tir na'r amgylchedd, ond mynegwyd anfodlonrwydd fod ceir hefyd wedi eu parcio ar y cae, gan nodi pe byddai'n wlyb y byddai'r cae peldroed wedi ei ddifetha. Eto yn ôl BD chafwyd dim cynw yn oddi wrth y timau peldroed. Apeliodd BD unwaith eto am well cyfathrebu rhwng y timau a swyddogion Parc Padarn, rheolwyr y cae.

2. Coed:

Mae coed wedi gordyfu o flaen 69 a 70 Maes Padarn ac mae nifer o goed

yn tywyllu 4 ty arall, 33 – 36 Maes Padarn. Addawyd cysylltu a Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

3. Llinellau Melyn:

Cafwyd cwynion am barcio bler a pheryglus ar Stryd Goodman. Adroddwyd fod llythyr wedi ei dderbyn oddi wrth CG yn awgrymu llinellau melyn dwbl dros y ffordd i Westy Fictoria, cytunwyd y byddai hynny yn gymorth i atal parcio, ond fod angen llinellau hefyd mewn mannau eraill. Mae angen llinell wen hefyd o flaen adwy i gefn Caffi Llygad yr Haul i gadw'r fynedfa yn glir.

GOHEBIAETH:

1. UHY Hacker Young:

Llythyr gan yr Archwilydd Cenedlaethol yn nodi y bydd yn cyhoeddi Tysytysgrif Archwilio Ddiamod, ond yn cyfeirio na chynhwyswyd cost mainc yn ffigwr yr Asedau Sefydlog.

2. Un Llais Cymru:

Rhybudd cynigion ar gyfer Cyfarfod Blynnyddol ULIC, Hydref 4ydd.

CYNLLUNIO:

1. Cyngor Gwynedd:

- C14/0240/15/MG – Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer codi 11 annedd preswyl fel a ganiatawyd o dan gyfeirnod C11/1103/15/AM – tir ger Ffordd Ty Du, Llanberis

Er mai trin manylion y mae'r cais yma mae'r Cyngor hwn yn dal yn bryderus am ddŵr a allai ddod o'r safle ac achosi llifogydd.

- C14/0657/15/LL – codi estyniad deulawr i gartref preswyl presennol i gynnwys 24 ystafell wely ychwanegol a chyfleusterau cysylltiol - Plas Garnedd, Llanberis

Dim gwrthwynebiad, ond mae pryder am y cynydd mewn trafnidiaeth ac am barcio ar y safle. Mae'r Cyngor o'r farn fod dyluniad yr estyniad yn gyffredin iawn, yn enwedig o gofio pa mor agos y mae i ffin y Parc Cenedlaethol.

- C14/0736/15/LL – Codi estyniad llawr cyntaf ar gyfer creu uned byw hunan gynhaliol 1 ystafell wely uwchben estyniad sydd eisioes wedi ei ganiatau o dan C12/1624/15/LL ynghyd â gwneud newidiadau i fynediad llawr cyntaf i fflat bresennol – 56 Stryd Fawr, Llanberis

Dim gwrthwynebiad.

- C14/0786/15/R3 – Gosod darllenfwrdd gwybodaeth – Maes Parcio rhwng Mynydd Gwefru a Maes Chwarae, ger A4086, Llanberis

- C14/0788/15/R3 – Gosod darllenfwrdd gwybodaeth – Sgwar ar gyffordd Stryd Fawr a'r A4086, Llanberis

- C14/0789/15/R3 – Gosod darllenfwrdd gwybodaeth – Maes Parcio parallel i'r A4086, Llanberis

Dim gwrthwynebiad i'r tri cais uchod. Serch hynny 'roedd nifer o aelodau'r Cyngor yn anfodlon na chafodd y Cyngor wybodaeth am y bwriad. Pam na chafwyd ymgynghoriad gan CG?

- C14/0821/15/RC – Cais i ddiwygio Cytundeb 106 oddi ar gais cynllunio C07D/0582/37/LL – 30 Stryd Goodman, Llanberis

Dim gwrthwynebiad.

APCE: Caniatáu:

NP3/15/170A – Diwygio amod Rhif 3 o Ganiatâd Cynllunio NP3/15/170 dyddiedig 22/07/2004 i gadw offer presennol 'Airwave' (mast telathrebu ac offer cysylltiedig) ar safle am 10 mlynedd ychwanegol – Ty Isaf, Nantperis. Dim gwrthwynebiad (er i'r cynllun gwreiddiol gael ei wrthwynebu).

MATERION ARIANNOL:

a) Yn y Banc ar yr 28ain o Fedi, 2014

Cyfrif Cyfredol: £11,505.27

Cyfrif Cadw: £5,334.74

Gwariant y mis _____ £1221.10

Derbyniadau'r mis _____ £10,300.51

LLWYBRAU A'R FYNWENT:

Y Fynwent:


Torrwyd gwair Mynwent yr Eglwys.

Llwybrau:

Mae Lôn Las Peris i'w chau o'r 29ain o Fedi am dri mis. O dan y Lôn y gosodir y beipen nwy newydd i Lanberis. Mae lle i gredu y bydd y gwaith yn cael ei atal yn ystod wythnos hanner tymor.

ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL:

Adroddwyd fod Partneriaeth Llanberis wedi trafod gosod Byrddau Hysbysebu newydd yn y pentref.



GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o gofnodion y 7ed o Hydref.

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadaol gan y Cadeirydd

Cofnodion cyfarfod yr 2il o Fedi.

Cywiriad - Englyn Richard Ll Jones:

Nid oes i dymor oriau, - nid defod

yw tyfiant y cnydau,

Natur sy'n agor giatiau,

Rho'r ddawn i'r ddaear ryddhau.

Materion o'r cofnodion.

Cwrs "Un Llais Cymru" yng Nghaernarfon - trodd Phyllis Ellis a Hefin Williams i fyny ond nid oedd neb yno - cŵyn i'r trefnwyr.

Gyrru trwy Ddinorwig - dywedodd Elfed Williams ei fod yn trefnu gosod "speed counters" yno.

Mynedfa newydd yn Bron Gwynedd, Bethel. Ateb Adran Cynllunio Gwynedd nad oes angen caniatad i agor mynedfa oddi ar ffordd ddi-ddosbarth ar gyfer pwrpas amaethyddol neu i leoli cist ddur. Ateb Adran Priffyrdd Gwynedd eu bod wedi derbyn cais cynllunio a'i fod o dan ystyriaeth.

Cysgodfa Brynrefail. Derbyniwyd pris D.E. Williams o £200 am osod panel polycarbonet yno.

Cysgodfa Deiniolen. Penderfynwyd peidio ail osod sedd yno a thynnu'r braced dur o ganol y gysgodfa - gofyn i D.E. Williams am bris. Gofynnodd Idris Thomas a yw yswiriant y Cyngor yn cynnwys y math yma o ddifrod. Addawodd y Clerc wneud ymholiad.

Gwasanaeth bws gyda'r nos - ardal Penisa'rwaun. Cyflwynwyd ateb manwl Mr Dafydd W. Williams, Adran Trafnidiaeth Gwynedd, yn egluro pam na ellir parhau'r gwasanaeth yma ar hyn o bryd. Trafodwyd yn helaeth y gwasanaethau bws cyffredinol a phenderfynwyd hysbysu'r Adran Trafnidiaeth nad yw'r Cyngor yn hapus gyda'r sefyllfa.

Materion Ffyrdd Medi. Atebion Gwynedd:

Croesffordd Brynrefail / Trem Eilian - y Cyngor yn ddi-newid ar y mater yma, ni osodir croesfan pelican yno na lleihau'r cyflymder.

20 m.y.a. heibio ysgol Penisa'rwaun - cytundeb eisioes yn ei le i osod yr arwyddion a chystadleuaeth i'r disgyblion gyflwyno darluniau ar gyfer yr arwyddion.

Palmant - Rhydfadog / Gallt y Foel - dim gobaith.

Minffordd, Penisa'rwaun. Dau ateb:

1. oddi wrth Swyddog Gorfodaeth Gwynedd - nid yw'r defnydd anheddol wedi dod i ben, felly nid oes angen caniatad i adfer y tŷ na chlirio'r safle.

2. oddi wrth Adran Trafnidiaeth Gwynedd - nid oes unrhyw gynlluniau pendant wedi eu cyflwyno. "Fodd bynnag byddaf yn cadw eich sylwadau parthed lledu'r ffordd mewn meddwl ac yn annog yr ymgeisydd i gydweithio i ddarparu gwelliant fel rhan o unrhyw gais ffurfiol a ddaw o'm blaen yn y dyfodol."

Cludiant i ysgol Brynrefail. Cadarnhad Gwynedd i barhau'r cludiant i ddisgyblion Penisa'rwaun.

Cofeb y Chwarelwyr. Dinorwig. Derbyniwyd sylw Miss Sara Wood bod Clwb Orwig wedi derbyn arian ar gyfer cynnal a chadw'r gofeb pan gaewyd

y ganolfan. Ateb Clwb Orwig bod y cyfraniad hwnnw wedi ei ostwng o £550 i £300 am nad oeddent i gynnal a chadw'r gofeb. Danfonwyd adroddiad Clwb Orwig i Miss Wood i geisio datrys y camddealltwriaeth

Gohebiaethau a materion eraill.

Canolfan Dinorwig. Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd John Wyn Jones am ei ateb i'n llythyr 19/09/14 ynglŷn ag effaith datblygiadau o'r fath ar yr Iaith Gymraeg.

Ffordd Rhos Wian, Penisa'rwaun. Gofynnodd Hefin Williams ar ran Aled Green am arwyddion "Dim parcio" ar y rhan o'r ffordd ger y cae chwarae a/neu linellau melyn. Gwnaed y cais yma droeon o'r blaen - angen pwyso ar Wynedd beth yw'r anhawsterau yma i drigolion Rhos Wian a'r cyffiniau. Llinellau melyn. Rhybydd Gwynedd y gosodir llinellau melyn dros y ffordd i Swyddfa'r Post, Bethel.

Grŵp Cynefin. Cyflwynwyd manylion grantiau sydd ar gael i fudiadau/grwpiau gwirfoddol.

Her Gwynedd. Cyflwynwyd llythyr Gwynedd yn gwahodd barn y cyhoedd ar sut i arbed arian yn y dyfodol :-

cyfarfod yn Caffi Gisda, Y Maes, Caernarfon - 1.30 - 4.30, Hydref 20fed

cyfarfod yn Clwb Rygbi Caernarfon - 6.00 - 8.00, Hydref 20fed

Cynllunio. Ceisiadau a dderbyniwyd:

"Bothy" Coch Hir Farm, Penisa'rwaun - newid defnydd adeilad sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer llety atodol i lety gwyliau. Gwrthwynebu'r cais yma gan na ddefnyddir yr adeilad fel llety, ni fu neb erioed yn lletya nac yn byw ynddo.

Tir ger Tŷ'n Rhos, Bethel - gorchymyn diogelu coed A94 (dros dro)

Tan y Buarth, Deiniolen - newidiadau allanol i adeilad gan gynnwys codi lefel er mwyn darparu estyniad i'r eiddo presennol.

O gwmpas y bwrdd.

Phyllis Ellis - Gwynedd wedi gwella cyflwr y ffordd o gyfeiriad Tan Gaer i Benisa'rwaun.

Hefin Williams ar ran Rhian Evans - tair giât ar y llwybr o Rhiwlas i Beran, angen gwneud y llwybr yn addas ar gyfer buggy plentyn neu berson anabl - llythyr i'r adran llwybrau

Elfed Williams - 15 mlynedd o le sydd ar ôl ym mynwent Macpella, angen sicrhau mwy o dir - llythyr i Wynedd (Alan Wyn Jones).

Golau yng nghefn Hafod Olau - atgoffa Gwynedd.

Idris Thomas - fandaliaeth yn y rhan gyhoeddus o chwarel Dinorwig wedi ei atgyweirio - diolch i M/s William Hughes a First Hydro am waith da a phrydlon.

Phylip Jones - nid oes arwydd "Dinorwig" ar gychwyn y pentref - llythyr i'r Adran Ffyrdd.

Gwilym Williams - nid oes ateb ynglŷn â Ysbyty Chwarel - llythyr atgoffa.

Hefin Williams - maes parcio'r amgueddfa, Llanberis, yng nghymuned Llanddeiniolen, beth am ystyried cymryd drosodd y parcio a defnyddio'r arian ar gyfer gwelliannau eraill?

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



Oriel CWM

CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle

PRISIAU RHESYMBOL

Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys

Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882



POSH PAWS

TACLUSO CWN

Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8yb-4yp

Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

MODURDY'R WYDDFA

Snowdon Garage

LLANBERIS

M.O.T

GWASANAETH CYNNAL A CHADW

(01286) 870225



BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR

ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT

Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.

Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch **(01248) 361044**



D. P. OWENS RHIWLAS

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Cymuned Llanrug

Mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar 16 o Fedi 2014:

- Cyflwynwyd Clerc newydd y Cyngor, Mr Meirion Jones, i'r aelodau yn dilyn ymddiswyddiad Mrs Emma Williams.
- Trafodwyd cyflwr y mat ger y gylchfan yng nghae chwarae Pwll Moelyn a mynegwyd pryder nad yw y matiau sydd ar y llawr ddim cyn gystal â'r matiau oedd yno cynt, er ein bod wedi'n cynghori mai'r rhai cyfredol oedd y gorau.
- Adroddwyd fod ceir yn gor-yrro ar hyd ffordd Glanmoelyn ac y dylem gefnogi'r Cynghorydd Sir yn ei ymgyrch i gael cynllun arafu traffig yno. Penderfynwyd gofyn i'r heddlu fonitro'r sefyllfa ac awgrymu bod uchafswm gyrru o 20 milltir yr awr yn briodol oherwydd fod nifer o blant iau yn chwarae yn y cyffiniau.
- Clywyd fod faniau wedi parcio ger mynedfa'r cae chwarae yng Nhwmyglo a bod rhywun wedi torri i fewn i'r sied gan falu'r clo. Penderfynwyd rhoi'r gwaith o drwsio'r difrod i Menter Fachwen ac i ofyn i'r heddlu edrych ar y faniau sydd yn aros.
- Adroddwyd fod Cymdeithas Tai Gogledd Cymru wedi rhoi saith diwrnod i'r adeiladwyr gwblhau'r gwaith angenrheidiol ar gae chwarae Glan Moelyn.
- Cafwyd cwyn fod arwydd 'Beware of the Dog' wedi'i roi ar lwybr cyhoeddus. Roedd o'r farn fod hyn wedi ei wneud ar bwrpas i wneud i bobl ail-feddlw rhag defnyddio'r llwybr cyhoeddus. Ar ôl trafodaeth, penderfynwyd estyn gwahoddiad i aelodau'r Cyngor fynd i gerdded y llwybr.
- Adroddwyd fod un giat ar y llwybr ger Ogwen yn yr afon a bod y llall wedi'i difrodi hefyd. Roedd Cyngor Gwynedd wedi ei hysbysu o hyn ond mynegwyd pryder y gall y gatau ddiiflannu a'u defnyddio fel scrap. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir ail osod y gatau a thacluso'r llwybr.
- Derbyniwyd adroddiad manwl ar y sefyllfa ariannol bresennol ac arwyddwyd y Ffurflen flynyddol ar gyfer 2013 / 2014.
- Adroddodd y Cyn Glerc ei bod wedi mynd o amgylch y fynwent i sicrhau fod manylion y beddi yn gywir. Nodwyd fod hyn wedi bod yn llawer o waith a diolchwyd iddi.
- Mynegwyd pryder nad yw swyddogion yr heddlu yn dangos eu presenoldeb ddigon aml yn Llanrug. Penderfynwyd cysylltu â PCSO Mike Sambrook a gofyn iddo fynd o gwmpas yr ardal a'i wahodd i gyfarfod nesa'r Cyngor i adrodd yn ôl ar ei symudiadau a'i ymweliadau. Hefyd penderfynwyd gofyn a oes posib cael presenoldeb heddlu ar Ffordd Glanmoelyn i rybuddio gyrrwyr o'u cyflymdra.
- Derbyniwyd gohebiaeth gan Gwmni Cymunedol Ynni Padarn Peris yn egluro eu cynllun cynhyrchu trydan. Penderfynwyd rhoi cefnogaeth i'r cwmni yn eu menter.
- Derbyniwyd cwyn am wasanaethau bysus gyda'r nos, yn enwedig ar y penwythnosau. Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd i weld beth yw'r sefyllfa ddiweddar a beth yw eu cynllun i'r dyfodol.
- Adroddwyd fod un sedd wag ar y Cyngor. Yn ddelfrydol byddai denu rhywun o ardal Crawia / Ysgol Brynrefail. Penderfynwyd rhoi hysbyseb yn Eco'r Wyddfa i hysbysu'r sedd wag.
- Adroddwyd fod Cyng Alan Pritchard wedi cytunio i eistedd ar fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Cwmyglo.
- Adroddwyd fod llythyr wedi'i dderbyn gan y Swyddfa Bost yn egluro fod y Post yn symud o'i leoliad presennol i'r safle arfaethedig yn Ystorfa Llanrug ac yn gofyn i'r Cyngor ymateb. Penderfynwyd ateb drwy ddatgan gwerthfawrogiad y Cyngor am waith Mr Edgar a Mrs Pat Jones dros y 15 mlynedd diwethaf ynghyd â mynegi pryderon am y safle newydd.

**BARRYS
GLASS**

**FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC**
**Trwsio Unedau
DOUBLE GLAZING**
Trwsio a Gosod Gwydr
(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

Un funud fach ...

GYDA'N GILYDD

Aaaaaaaa!!! Mae'n ganol mis unwaith eto, ac yn amser sgwennu'r golofn hon cyn i'r papur fynd i'r wasg. Mae wedi bod yn wythnos ryfedd o newid hetiau acw (ynteu newid cotiau deudwch!) Nos Fawrth efo'r Presbyteriaid yn y Cyfarfod Misol yn Capel Coch; nos Fercher efo'r Annibynwyr yn y Cyfarfod Chwarter yn Llanllechid. Roedd rhai pethau'n debyg yn y ddau gyfarfod, a phethau eraill yn wahanol. Digon tebyg oedd y bobl yn y ddau le, ac er na wnes i gyfri' pennau yn yr un o'r ddau gyfarfod, digon tebyg oedd maint y ddwy gynulleidfa.

Digon tebyg yw'r stori yn y ddau enwad hefyd. Rhwng y ddau gyfarfod mi glywais am ddau gapel yn cau, sawl eglwys yn galaru o golli aelodau ac arweinwyr ffyddlon, dwy ofalaeth yn awyddus i alw gweinidog, un bachgen ifanc newydd gael ei ordeinio'n weinidog, un gweinidog newydd ymddeol, dau flaenor newydd, dwy Ysgol Sul brysur, ac ymdrechion ffyddloniaid yr eglwysi yng ngwaith yr Arglwydd Iesu Grist. Roedd rhai pethau'n sicr yn codi calon.

Fwy na thebyg y byddai llawer iawn o bobl wedi cael trafferth i ddeud y gwahaniaeth rhwng y ddau gyfarfod a'r ddau enwad yr oedden nhw yn eu cynrychioli. 'Pwy ddeudoch chi oedd yn cyfarfod yn Capel Coch?' Wedi'r cwbl mae'n ddigon yn mynnu ers blynyddoedd nad oes fawr o wahaniaeth rhwng yr enwadau a'i gilydd. A thros y blynyddoedd fe gafwyd llawer o sôn am ddod â'r enwadau at ei gilydd. Mae llai o sôn am hynny erbyn hyn, er bod rhai pwyllgorau a gweithgору'n dal i drafod y fath bethau. Fûm i erioed yn frwd o blaid yr un o'r cynlluniau a gafwyd dros y blynyddoedd i uno'r enwadau. Un o'r rhesymau am hynny oedd na wnes i erioed feddlw bod dod â dau neu dri neu fwy o enwadau bregus at ei gilydd yn debygol o greu un enwad cryf.

Mi fentraf ddeud ei bod yn amlwg ers blynyddoedd nad oes modd, ac na wél yr un ohonom uno'r enwadau yng Nghymru. Ac nid drwg o beth yw hynny gan fod iddynt o hyd eu cyfraniad arbennig i'w wneud yng ngwaith yr Arglwydd. Rheitiach o lawer na cheisio uno'r peirianwaith enwadol yw annog eglwysi o wahanol enwadau i gydweithio â'i gilydd lle bo hynny'n bosibl. Ac fe geir cydweithio mewn llawer lle ac mewn sawl ffordd. Un enghraifft o hynny yn yr ardal hon yw Cynllun Efe, a chyda'n gilydd yr ydym yn parhau i gynnal y genhadaeth hon ymhlith plant ac ieuenctid y fro. Gweddïwch dros y gwaith. Cefnogwch y gwaith. A manteisiwch ar wasanaeth Cynllun Efe i'ch helpu yn eich cenhadaeth er gogoniant Iesu Grist.

JOHN PRITCHARD

**BOSCH
Service**

**www.a-v-w.co.uk**
01286 673559
CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

**AVW** **BOSCH Car Service**

Y M G Y R C H MACMILLAN Dymuna Ann, 17 Ffordd Capel Coch, ddiolch i bawb a gyfrannodd mor hael yn y Bore Coffi Macmillan a gynhaliwyd ar 26ain o Fedi. Mae cyfanswm o £240 yn cael ei drosglwyddo i'r elusen Macmillan. Diolch yn fawr i bawb.

FFAIR NADOLIG CAPEL COCH i'w chynnal am 2.30 ar y 26ain o Dachwedd yn Festri Capel Coch.

C Y M D E I T H A S UNDEBOL Cynhaliwyd Cymdeithas agoriadol y Tymor ar nos Fawrth, Hydref y 14eg, yng Nghapel Coch. Mr Arfon Wyn, y canwr poblogaidd o Llangwyllog, Ynys Môn, oedd y gŵr gwadd.

Cawsom noson hwyliog a chartrefol yn ei gwmni. Soniodd am ei deulu, ar ochr ei dad yn hanu o Lanberis, ei blentyndod, ei ugeiniau, ei yrfa fel athro, a phrifathro, yn

ysgolion Hafod Lon, Pendalar ac, yn fwy diweddar, Ysgol Biwmares.

Canodd rai o'r caneuon poblogaidd yr oedd wedi eu cyfansoddidrosyblynyddoedd, noson ardderchog yn wir!

Ar ddiwedd y noson cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan rai o'r merched, diolch iddynt.

Llywydd y noson oedd y Parchedig John Pritchard. Rhoddwyd y diolchiadau gan Dilys Mai Roberts.

C Y M D E I T H A S UNDEBOL NESAF Bydd y Gymdeithas nesaf ar Nos Fawrth, 11eg o Dachwedd yn Capel Coch am 7 yh. Y Gŵr Gwadd fydd Mr Eifion Jones o "Ambiwlans Awyr Cymru", gwneir casgliad ar y noson at yr achos da hwn.

Cyfeillion Plas Pengwaith Enillydd y Bêl Bonws am fis Medi oedd Mrs Nan Owen.

Annwyl Olygydd,

Drwy dudalennau yr ECO fe hoffwn gymeryd y cyfle i ddiolch am y croeso gwresog a gefais yn y Gymdeithas sy'n cyfarfod yng Nghapel Coch, Llanberis, ar nos Fawrth y 14 o Hydref. Cefais y fraint o agor y cyfarfodydd ar gyfer Tymor y Gaeaf drwy roi anerchiad a chanu ychydig o'm caneuon. Fe'm croesawyd yn gynnes gan Y Parch John Pritchard yn ei ffordd ddiwyll ac hynod annwyl arferol.

Yn ystod y cyfarfod bu i mi sôn am yr amrywiol ddylanwadau a oedd ar fy mywyd ers dyddiau plentynod ac fe genais ambell i gaân i gynrychioli y gwahanol gyfnodau. Fel arfer fe fyddaf yn cloi gyda'r gaân HARBWR DIOGEL ond y tro hwn gan fy mod ym mhentref Llanberis, a gan fod fy nhad wedi ei eni a'i fagu yn y pentref, penderfynais orffen gyda chân wahanol, sef COFIO RICHIE AC IFAN. Cân yw hon a ysgrifennais am ddau frawd fy nain a laddwyd yn y RHYFEL MAWR.

Fe laddwyd Evan R. Parry yn y Dardanells a theimlai Richard R. Parry ei fod yn ffodus iawn yn cael mynd adra yn fyw! OND ar ei daith tuag adref fe fu iddo orfod teithio ar long ar hyd culfor cul ac yn anffodus iawn fe'i saethwyd gan "sneipar" Twrcaidd o'r lan. Dywedwyd fod eu mam wedi wyllo cymaint ar ôl clywed am ei cholled ddirydol o golli dau fab a oedd yn fechgyn galluog a hardd yn y Rhyfel gorffwyl hwn; fel ei bod wedi gwneud niwed i'w "tear ducts", ac na allai wyllo yn yr un modd fyth wedyn.

Gofynnodd un wraig annwyl o'r enw Dilys (ac eraill), ar ddiwedd y cyfarfod yng Nghapel Coch, am gopi o eiriau'r gân. Nid oedd genyf ond un copi ac fe'i rhoddais iddi. Ond teimlais efallai y byddai'n fuddiol i mi ddanfôn copi o'r geiriau i chwi i'w cyhoeddi yn ECO'R WYDDFA gan ei bod yn gân wedi ei gwreiddio yn ddwfn yn ardal yr Eco! Fe fyddai Jonsi gynt yn chwarae'r gân yn gyson ar Radio Cymru, yn enwedig ar adeg Sul y Cofio, ond bellach ni fydd yn cael ei chwarae cymaint!

Ar ddiwedd y cyfarfod yng Nghapel Coch bu i rai o'r cyfeillion ddangos tair ffrâm fawr a oedd yn cael eu harddangos yn y capel y mis hwnnw i gofio canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn y fframiau yr oedd enwau bechgyn ifanc yr ardal a fu yn y rhyfel a'r rhai a gollwyd yn ogystal. Ac yn wir i chwi yno yn eu plith yr oedd enwau y ddau frawd o Llainwen, Llanberis a gollwyd yn y rhyfel, sef dau frawd fy nain y soniais amdanynt yn y gân!!!!

Cyn rhoi geiriau'r gân i lawr, a gaf i ddiolch o galon am y croeso brwd a gefais y noson honno yn Llanberis ac yn arbennig y "Scram" arbennig o flasus a gafwyd ar ddiwedd y cyfarfod yn cynnwys llwythi o ddanteithion o bob math, a'r cyfan yn "hom med"!!!!

Noson wych a chartrefol iawn yn wir!!

Dyma eiriau'r gân am y ddau frawd o Lanberis:

COFIO RICHIE AC IFAN

1. Gweithiodd y ddau yn y chwarel ers yn bedair a'r ddeg
A hwythau'n fechgyn cryfion glan a theg;
Yn hogia diwilliedig, wrthi'n naddu'r llechi o'r graig,
Rhaf fel hwy oedd asgwrn cefn gwlad y Ddraig!

Buont yn ymladd byddin Twrci ym mhendraw'r byd
Ond 'roedd Llanberis yn agos at eu c'lonnau hwy o hyd.
Yn y Dadanells fe laddwyd Ifan o do yn gelain i'r llawr
Ac fe saethwyd Richie druan gan "sneipar" cyn y wawr!

Cytgan: Ac fe'u gyrrwyd hwy i ymladd, o do i'r Rhyfel Mawr,
Ond 'rwyn cofio am Richie ac Ifan, cofio am Richie ac Ifan
Cofio am Richie ac Ifan a'u tebyg yn awr!

2. Wylodd eu mham hyd nes na allai wyllo mwy
A dywedwyd na wellodd amser fyth mo'i chlwy.
A colled enfawr i Gymru oedd i golli rhaf fel hyn
A phe na bai rhyfel fe fyddem yn rhydd erbyn hyn!

Cytgan: Ac fe'u gyrrwyd hwy i ymladd..... (fel yr uchod)

Cytgan olaf: A mellith ar lywodraeth Lloegr am eu danfon hwy
i'r Rhyfel Mawr
Ond 'rwyn cofio am Richie ac Ifan, cofio am Richie ac Ifan,
Cofio am Richie ac Ifan a'u tebyg yn awr .
Cofio, cofio, cofio..... Yn awr!


WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

Pryd i bawb
Arlwyo at bob achlysur Yn ynrhyw leoliad Bwffe Blasus o Safon
PRIODAS
CYFARFODYDD
BEDYDD • PARTI • TE
ANGLADD
BASGED PICNIC
BWYD YN UNIG. NEU
GWASANAETH LLAWN
CERID MACKINNON
(01286) 673190
Symudol 07774 925502

"FFONIWCH DIONI I GAEL 'BWCINGS' YCHWANEGOL DROS Y GAEAF"

tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk





Ar ben arall i'r lein

Wel dyna ni, tymor arall ar ben a, mewn difri, dyma'r tymor gwaethaf o fewn cof cyn belled ac roedd pysgota am eog a sewin yn y cwestiwn. Tri eog ddaeth i'r rhwyd a rhyw hanner cant o sewin. Mae ffeithiau fel hyn yn cadarnhau, heb os, fod haint Llyn Padarn wedi taenu mantell o lygredd amgylcheddol difrifol dros bysgota'r dalgylch. Wrth gwrs, nid yn unig gweithredoedd Dŵr Cymru sy'n hollol gyfrifol gan fod raid ystyried beth sydd wedi ei golli o gapasiti ein dyfroedd fel magwrfa drwy adeiladu gorsaf gynhyrchu trydan Dinorwig. Colli Llyn Peris, Afon y Bala, rhan bwysig o afonydd Hwch, Peris a'r holl o'r Dudodyn. Mae adroddiad Cyfoeth Nauriol Cymru ar achosion y problemau a phwy sy'n gyfrifol i fod i ddod i law at ganol Tachwedd, ond 'rwyf ar ddeall fod y corff eisiau cyfarfod gyda'n bar-gyfreithwyr cyn rhyddhau'r canlyniadau. Mwyaf tebyg i geiso osgoi penderfyniadau anodd a sut i lusgo pethau ymhellach i wneud dim na chyhuddo neu erlyn neb.

Mae'n anodd credu fod y CNC yn gwenud yr ymchwyliad holl bwysig yma, oherwydd ni fydd yn bosib iddynt archwyllo ei hunain, ac mae'r broblem wedi codi yn hollol drwy iddynt hwy a Chyngor Cefn Gwlad Cymru eistedd ar eu dwylo a gwneud dim fel roedd y broblem yn gwaethygu yn 1992. Heddiw, wrth gwrs, mae'r hen Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Cyngor Cefn Gwlad wedi ymuno fel un corff, a does dim gobaith mul yn y 'Grand National' iddynt bwyntio bys atynt ei hunain. Tydi'r holl beth yn drewi 'dwch. Tra ar y drewi 'ma rwy'n sylwi fod rhai o'r gwleidyddion wedi deffro i'r ffaith fod y drewdod sy'n dod o safleodd carthffos Dŵr Cymru yn achosi problemau mawr i drigolion Caernarfon a'r Felinheli. Sgwn i a oes etholiad ar y gorwel tybed!

Mae penderfyniad ar yr ymgynghoriad ar stocio eog a sewin wedi ei gyhoeddi ar ddechrau Hydref. Gwastraff amser oedd ymateb i'r ymgynghoriad gan fod pawb yn gwybod be fuasai'r canlyniad a dyna oedd y penderfyniad yn y diwedd, sef atal stocio'n gyfangwbl a chau pob deorfa yng Nghymru sy'n ymgymeryd â stocio. Bydd un ddeorfa yn Cynrig, sydd oddeutu 120 milltir o'r Seiont, yn cael ei chadw'n agored o dan y penawd ymchwil. Be ydi dyfodol Deorfa Crawia tybed? Yr unig lygedyn o obaith cario 'mlaen yw fod cynllun magu a stocio'r torgoch wedi osgoi'r fwyell. Hefyd mae cytundeb cyfreithiol yn sefyll i stocio eog i wneud i fyny am y golled drwy weithgareddau gorsaf Dinorwig. Mae trafodaethau i'w cynnal at ganol Tachwedd, felly cawn weld be a ddaw. Ond mae'n debyg mai cludo'r wyau torgoch i'r canolbarth fydd yn canlyniad, 240 milltir a'r holl gostau sydd ynghlwm â'r fath beth, pan mae cyfleuster magu yma ar y trothwy. Dim ond arian cyhoeddus ydyw wedi'r cwbl!

Wrth fynd o amgylch yr hen fro 'ma mae'n amhosib peidio â sylwi sut mae safonau y dirywio. Yr wythnos diwethaf cefais gyfarfod

gyda'r heddlu oherwydd fod rhai aelodau'r gymdeithas yn wynebu bygythiadau yn aml gan rai unigolion sydd un ai yn pysgota'n anghyfreithlon neu yn difrodi eiddo'r gymdeithas. Rwy'n gwir gredu fod rhai o'r unigolion yma yn dal y syniad fod ganddynt yr hawl i fynd a dod a gwneud fel y mynont. Does dim rhyfedd eu bod yn ymddwyn fel hyn gan fod ymateb yr heddlu i gwynion ar adegau yn dorcalonus. Dyma i chwi ddwy engrafft.

1) Dechrau Awst eleni fe fygythiwyd aelod o'r clwb yn reit ddifrifol gan wŷr a oedd yn pysgota'n anghyfreithlon ar Lyn y Dywarchen, hyd yn hyn nid yw'r heddlu wedi cael gair â'r troseddwy'r, er i ddatganiadau cŵyn gael ei wneud ddau fis yn ôl.

2) Rhyw ddwy flynedd yn ôl fe ddwynwyd dwy o gychod y gymdeithas o'r angorfa ym Mhenllyn, fe dynnwyd llun o un o'r troseddwy'r gan aelod o'r cyhoedd. Fe drosglwyddwyd y wybodaeth i'r heddlu gan fod pawb yn adnabod y drwgweithredwr. Ymhellach, drwy ymholiadau gan drigolion lleol, fe gafwyd y cychod yn ôl, un o Lanberis a'r llall o Gaernarfon. Gwerth yr eiddo oedd bron i £6,000. Be wnaeth yr heddlu - wel mae'n drist dweud - dim! Neu does neb wedi dweud dim wrth y clwb. Tydw i ddim am fynd ymhellach ar hyn dim ond ceisio bod yn ffyddiog bod ein cyfarfod yn gwneud am ymateb mwy ffafriol yn y dyfodol.

Dwi bod yn crafu'r hen asgwrn yma eto mae gennyf ofn, ac mae'n amser troi at bethau mwy plerus fel chwipio'r enwair, ac ar Dywarchen, o leiaf, mae'r pysgota wedi bod yn ardderchog. Mae brithyll yr enfys sydd wedi gaeafu o stocio 2013 yn dal i ddangos eu hunain dros yr wythnosau diwethaf. Rhain ydi'r pysgod i'w bachu c mae blas da arnynt, yn enwedig drwy roi tipyn o gaws Llyn yn eu boliau, gwerth chweil! Dwi tipyn o gogydd ar y pysgod 'ma ar y slei a dwi'n cysidro rhoi rhyw arddangosfa bach ar ochr y llyn yng Ngwesty'r Seiont Manor pan fydd dyddiau agored y gymdeithas yn cael eu cynnal y flwyddyn nesaf. Mi fyddai fy nain yn dweud o hyd fod eisiau defnyddio Llŵch Hudol y Tylwyth Teg o Goed Jubilee yn lle halen. Dwi 'di bod o amgylch Moel Rhiwen yn ystod yr haf ond wedi methu cael dim. 'Sgwn i oes rhywyn hefo tipyn i'w sbario!

Gyda'r tymor ar ben gorchwyl y wythnosau nesaf fydd tynnu'r cychod o'r dŵr a chynnal tipyn arnynt dros fisoedd y gaeaf. Mae penderfyniad wedi ei wneud i roi allan y gwaith o dorri ychydig o lwybrau'r glannau. Bydd gwaith tynnu allan fapiau ac ati yn mynd a thipyn o amser, ynghlwm â pharatoi at y pwyllgor blyneddol. Os oes unrhyw rai â diddordeb yn y gwaith torri yna cysylltwch â mi.

Felly dyma ni tan y mis nesaf, pan fydd tipyn i'w ddweud ar archwiliad Padarn.

Huw Price Hughes.

ARVONIA



- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvonias.co.uk

Caffi Caban

ar agor

9 y bore tan 4 y pnaun- 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni -cydweithredol Di-elw Yw Caban Cyf
Wedi Ei Sefydlu i
Hwyluso Datblygiad Economaidd Cefn Gwlad

Nod Caban Cyf, yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffi a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (UNEDAU BUSNES CABAN) ER MWYN CREU CYFLEOEDD GWAITH

Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

CÔR MEIBION DINAS BANGOR



Ar Hydref 10fed, daeth tymor prysur iawn i ben yng ngweithgareddau'r Côr, gyda Chyngerdd Mawreddog yn Neuadd y Rhyddid y Weriniaeth yn ninas Dulyn yn yr Iwerddon. Yr oedd y cyngerdd wedi ei drefnu ar y cyd â Chôr Coleg y Bobl, Dulyn a Grŵp Uquartet.

Bu'r Côr yn brysur iawn drwy fisoedd y gwanwyn a'r haf gyda sawl cyngerdd yn Eglwysy Sant Ioan a'r Drindod Sanctaidd yn Llandudno a'r Santes Fair ym Metws y Coed a hefyd yn iddori ymwelwyr yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis ac i deithwyr o bob cwr o'r byd oddi ar y llongau mawr moethus a fu'n glanio yng Nghaergybi.

Dan arweiniad ein Cyfarwyddwr Cerdd, Lowri Prys Roberts o Frynrefail, mae rhaglen y côr yn gymysgedd o'r modern a'r traddodiadol gan gynnwys y sanctaidd a'r seciwlar.

Yn y dyddiau sydd ohoni, mae sawl un o'r côr yn aelodau o gorau eraill, sef Dyffryn Peris, Dyffryn Nantlle a Chaergybi a braf iawn yw gweld y cyfeillgarwch a'r cydweithrediad i gynyddu nifer y cantorion ar gyfer teithiau tramor.

Yn absenoldeb ein cyfeilydd arferol, Gwilym Lewis, daeth llywydd y côr a'i sylfaenydd, James Griffiths i gyfeilio yn y cyngerdd yn Nulyn lle cafwyd derbyniad arbennig. Safodd yr holl gynulleidfa i gymeradwyo ar ddiwedd perfformiad y cor. Cyflwynwyd anrheg o grefftwaith llechen i arweinydd y côr lleol gan Dafydd Ellis, cyflwynwyd y côr ar y noson cyn i'r ddau gôr ymuno i ganu i gloi'r cyngerdd. Cafodd y côr wahoddiad i noson bellach o gymdeithasu ac i swpera a chydganu yng Nghlwb yr Athrawon yn y ddinas.

Ar brynhawn Sadwrn hynod o braf, daeth dau o gyfeillion o'r côr Gwyddelig i'n tywys ar daith o amgylch y ddinas – taith gyrhaeddodd yn annisgwyl i gartref yr Arlywydd – ei balas ym Mharc Phoenix lle cawsom weld holl ysblander yr adeilad oddi mewn, cyn sefyll i ganu ar y grisiau crand oddi allan o dan arweiniad Lowri a chwmni cŵn yr Arlywydd.

Ie, yn sgîl y mwynhad o ganu mewn côr a'r hwyl a'r cymdeithasu sydd yn rhan annatod o hynny, yr ydym hefyd wedi cael orofiadau bytgofiadwy fel a gafwyd yn Nulyn ac ymhell ac agos drwy deithio'r byd dros y blyn yddoedd.

Mae'r Côr yn cyfarfod i ymarfer bob nos Fercher am 7.30 yn Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd, Bangor. Dewch draw, cewch hwyl a chroeso.



Gofal y Galon yn y Clwb Golff.

Ar 30 Medi cafwyd cyflwyniad o defibrillator i'r Clwb. Dau o'r cyn capteiniaid oedd yn gyfrifol am ei gael, sef Dr. Gareth Owens a Gwenda Roberts. Mae llawer o ddiolch hefyd i Dr. Tudor Ellis am ei gymorth ac Ardal Caernarfon a'r cylch o Sefydliad Prydeinig y Galon yng Nghymru. 'Roedd y Clwb yn rhoi'r swm o £600.00 at y defibrillator ac meant yn hynod ddiolchgar i gael y peiriant gwerthfawr hwn.

Daeth nifer o aelodau ynghyd i gael gwers ar sut i ddefnyddio'r peiriant gan aelod o'r Gwasanaeth Ambiwylans. Yn y llun Dr. Gareth Owens, Gwenda Roberts, Aled Owen, a Phillip o'r Gwasanaeth Ambiwylans.



Tach. Teithiau cerdded Tachwedd 2014

Sul 2 Tachwedd 1.30Yp

Bethel : yr ymosodiad Rhufeinig ar Ynys Môn (3 milltir)
Cychwyn: ysgol Bethel Cymhedrol.
Llwybrau cyhoeddus. Angen sgidiau cerdded.

Sul 16 Tachwedd 1.30Yp

Cylchdaith cyrion Caernarfon (3½ milltir)
Cychwyn: y Galeri, Caernarfon. Cymhedrol.
Llwybrau cyhoeddus. Gallu bod yn fwdlyd. Sgidiau cerdded.

Gwener 7 Tachwedd 1.30Yp

Hanes Cwm y Glo a Brynrefail (2 milltir)
Cychwyn: Menter Fachwen, Cwm y Glo.
Hawdd iawn.

Mae'r daith yma,n ganlyniad deunydd newydd a dderbyniwyd am hanes yr ardal. Taith bach hawdd ar gyfer prynhawn dydd gwener.

Gwener 21 Tachwedd 1.30Yp

Cylchdaith pentir (2 milltir)
Cychwyn: tafarn y Faenol, Pentir. Eitha hawdd. Llwybrau cyhoeddus. Angen sgidiau gerdded.

Iau 27 Tachwedd 1.30Yp

Tan y coed a chastell Bryn Bras (2½ milltir)
Cychwyn: cae chwarae Glanmoelyn, Llanrug. Eitha hawdd. Llwybrau cyhoeddus. Angen sgidie cerdded.

CYLCH LLENYDDOL CAERNARFON A GWYRFAI

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï am 7.30 o'r gloch ar nos Fawrth, 18ed Tachwedd yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon. Y siaradwraig wadd fydd Meg Elis a thestun ei chyflwyniad fydd 'Hen Ffurf a Chyfyngau Newydd'. Estynnir croeso cynnes i bawb. Noddir y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru.



Straeon Byrion i Blant – Dau Gasgliad Newydd i Lenwi Bwlch

Yr wythnos hon bydd Y Lolfa yn rhyddhau dau gasgliad newydd o straeon byrion i blant oedran cynradd. Mae Am Stori! (7-9 oed) a Beth am Stori? (9-11 oed) yn cynnwys straeon amrywiol gan nifer o awduron hen a newydd. Ymhlith yr awduron adnabyddus sydd wedi cyfrannu i'r cyfrolau mae Lleucu Roberts, Haf Llewelyn, Gwenno Hughes a Mihangel Morgan. Mae yna hefyd storiâu gan awduron llai adnabyddus. Ceir stori yn Beth am Stori? gan un o awduron ifancaf Cymru, Mia Ffrancis Roberts, merch unarddeg oed o Lannerchymedd.

Yn ogystal â'r straeon mae cyflwyniad yn y ddwy gyfrol gan Caryl Lewis sy'n esbonio beth sy'n gwneud stori dda. Dywedodd Meinir Wyn Edwards, golygydd y llyfrau,

“Mae yna brinder mawr o straeon ar gyfer plant cynradd a gobeithio bydd y llyfrau yma yn gam at ateb y galw. Mae'r rhain yn straeon fydd yn deffro'r dychymyg ac yn mynd â phlant i fydoedd cyffrous heb orfod symud cam. Gobeithio y byddant yn ysgogi plant i ysgrifennu stori eu hunain hefyd.”

Mae'r gyfrol yn cynnwys amrywiaeth mawr o bynciau fydd yn apelio at blant a ceir hefyd luniau gan Peter Stevenson. Derbyniodd y gyfrol nawdd gan gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.



Brenhines y Mynydd: Triathlon yr Eira.

Gyda Triathlon y Llechen a Thriathlon y Tywod eisoes wedi eu cynnal, dim ond Triathlon yr Eira oedd ar ol i gwblhau'r drindod, a'r cyfan wedi eu trefnu gan y cwmni lleol Camu i'r Copa (Always Aim High). Ac fel yn y ddwy driathlon gynharach, daeth llwyddiant lleol. Helen Teasdale o Ddinorwig oedd yr ail ferch yng Nghapel Curig, ac oherwydd mai hi oedd y ferch gyflymaf ar Foel Siabod, (gan redeg i'r copa ac yn ol a hynny wedi nofio yn Llynau Mymbyr a beicio dyffrnoedd Llugwy a Lledr), hi gafodd ei choroni yn Frenhines y Mynydd. Heb anghofio merch arall o Ddinorwig, sef Stel Farrar, a enillodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth i grwp oedran merched dros hanner cant oed. Daeth llwyddiant hefyd i dim lleol, sef Lissie Smith, Brynrefail, a nofiodd gymal llynau Mymbyr; Keith Ball, Penisarwaun a redodd Foel Siabod, a'r beiciwr Carlo Forte o ardal Llais Ogwan. Mae'r tri yn gweithio ym Mhlas y Brenin. Yng nghystadleuaeth y 'sbrint' daeth Alison Donnelly o Ddinorwig yn gyntaf yn yr adran i ferched dros 40 oed. Tair merch o Ddinorwig yn ennill gwobrau. Mae'n amlwg fod manteision athletig o fyw ym mhentref uchaf y fro! Llyniau gan Andy Teasdale



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Her Gwynedd
Gwynedd Challenge

Beth sy'n bwysig i chi'n lleol?
Sut allwn ni fynd i'r afael â'r her ariannol efo'n gilydd?

	1.30 – 4.30	6.00 – 8.00	
Caernarfon	Caffi Gisda, Y Maes	Clwb Rygbi Caernarfon	Hyd/Oct 20
Bala	Canolfan Henblas	Ysgol y Berwyn	Tach/Nov 3
Tywyn	Ysgol Penybryn	Ysgol Penybryn	Tach/Nov 6
Pwllheli	Capel y Drindod	Ysgol Glan y Môr	Tach/Nov 10
Blaenau	Llyfrgell/ Library	Ysgol Moelwyn	Tach/Nov 19
Bangor	Tŷ Cwrdd y Crynwyr/ Quakers House	Neuadd yr Esgob Bishop's Hall	Tach/Nov 20
Porthmadog	Y Ganolfan	Ysgol Eifionydd	Tach/Nov 24
Dolgellau	Ty Siamas	Ty Siamas	Tach/Nov 27

Galwch mewn i gael sgwrs rhwng 1.30 - 4.30yp neu gofrestru ar gyfer y cyfarfod gyda'r nos am 6 - 8yh.



Cofrestrwch eich manylion ar-lein ar www.gwynedd.gov.uk/CofrestruHerGwynedd neu ffoniwch ni ar 01766 771 000. Register your details on line at www.gwynedd.gov.uk/RegisterGwyneddChallenge or phone us on 01766 771 000



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Rhedeg Mynydd

Hydref yn draddodiadol yw penllanw'r tymor rhedeg mynydd, ac ar Fryniau Middleton, Cumbria y digwyddodd hynny eleni, pan gynhaliwyd Pencampwriaeth Prydain i Rasys Cyfnewid ar Fynydd. Roedd hon yn ardal ddieithr iawn i bron pob un rhedwr, oherwydd prin iawn yw'r rasys mynydd sy'n cael eu cynnal yma, a bu'n rhaid i'r trefnwyr gael caniatad arbennig i gael mynediad addas ar gyfer cyrchu'r bryniau. Ond profodd yn ddiwrnod llwyddiannus, ac er gwaethaf bygythiad o dywydd garw, cadwodd y glaw a'r niwl i fwrdd, a gwyntoedd cryf ar y copaon oedd prif broblem y rhedwyr.

Roedd dros ddau gant o dimau yn cymryd rhan, sef mil dau gant a mwy o redwyr! Ac yr oedd tri o dimau Eryri yn eu plith: Tim Dynion, Tim Merched a Thim Dynion dros 40 oed; gyda nifer o redwyr o fro'r "Eco" yn cymryd rhan. Er na chafwyd gwobrau, roedd perfformioadau'r tri thim yn ganmoladwy iawn. Llongyfarchiadau i Mathew Roberts, Sam Spinney, Hugh O'Donnell (Tim Dynion), Dyfed Thomas, Dylan Jones (Tim Dynion dros 40 oed) a Helen Teasdale (Tim Merched).

Mae'r tymor traws-gwlad yn mynd rhagddo, gyda Mathew Roberts yn dod yn ail am yr eildro yn Llandudno yn ystod y mis. Ymlaen am Wrecsam, ond cyn hynny bydd yn teithio i Morbegno yn yr Eidal i gystadlu yn y ras yno sydd wedi ei gefeillio efo Ras yr Wyddfa.

CROESO I BOB WAN JAC!

Ers ail agor Neuaddd Goffa Bethel ar ei newydd wedd bu cryn ymgais i ehangu y defnydd o'r adeilad. Yn ddiweddar daeth datblygiad pwysig ym maes chwaraeon. Yn dilyn cais llwyddianus gan y Cyng. Sion Jones ar ran Pwyllgor y Neuadd derbyniwyd grant o £1500 gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

Pwrpas y grant oedd pwrcasu offer i sefydlu Clwb Bowlio dan Dô yn y pentref. Eisioes mae'r offer yn cynnwys y matiau 30 troedfedd a'r peli wedi cyrraedd ac mae ambell un wedi cael cynnig ar eu defnydd. Erbyn heddiw, mae'r gem yn apelio i bob oedran ac wedi denu sylw'r teledu ar sawl achlysur. Yn ddiau mae'n gofyn am gryn grefft.

I gryfhau y syniad o glwb, bydd sesiynau yn cael eu cynnal yn y Neuadd ar bwnau Mawrth am 1pm. Mae croeso i unrhyw un alw draw. Yn sicr, y bwriad yw sefydlu clwb cystadleuol i chwarae mewn cynghrair leol. Ond nid dyna'r unig bwrpas. Y mae i'r gem hefyd ei atyniad gymdeithasol. Nid pawb sydd o natur gystadleuol. Mae elfen o hamddena i'r gem hefyd.

Ers sawl blwyddyn mae Clwb Bowlio Dan Dô Waunfawr wedi hen ennill ei blwy. Mae unigolion fel Dafydd Price, Cwm-y-Glo wedi cynhyrchioli Cymru, ac yn uchel ei barch fel dyfarnwr rhyngwladol. Edrychwn ymlaen felly at y gem ddarbi gyntaf rhwng Waunfawr a Bethel.

Y CWPANAU YN DENU

Â yw tymor Llanrug wedi troi'r gornel. Dyna'r cwestiwn, ac roedd y fuddugoliaeth draw ym Mhenrhyndeudraeth yn awgrymu hynny. Tybed hefyd a fydd eu hymddangosiad yn Stadiwm Caerdydd i'w cyflwyno i'r dorf cyn y gem ryngwladol yn codi rhyw awch i ddychwelyd. Mae Treffynnon yn bell ar y blaen ar frig y tabl, ond does fawr yn gwahanu'r gweddill. Tipyn o ganlyniadau ffafriol a gallai Llanrug greu sialens unwaith eto.

Siomedig fu'r mis ar y cyfan draw ar Ffordd Padarn. Yn fwy na'r canlyniadau siomedig daeth anafiadau hefyd yn gwmwl. Wedi damwain Gwion Williams – daeth anaf drwg arall yn y gem ryfeddol draw yn Nyffryn Nantlle yng Nghwpan Cymru. Y chwaraewr anffodus oedd Gethin Maxwell a gafodd anaf ddrwg iawn i'w benglin fydd yn ei gadw allan am gyfnod maith. Ar ddechrau'r tymor roedd Gwion a Kevin yn allweddol yn nechrau da i'r tymor gan y Darans. Gwelwyd eu heisiau yn y golled o 1-0 gartref i Walchmai yn y gynghrair.

Serch yr anafiadau mae dwy gem gwpan fawr yn wynebu Llanberis ym mis Tachwedd. Wedi ennill draw yn Nantlle ar giciau o'r smoty, bydd Caersws yn ymweld a Ffordd Padarn yn ail rownd Cwpan Cymru. Mae Caersws yng nghanol y tabl uwchben Llanberis, ac yn gyn aelodau o'r Gynghrair Genedlaethol. Tipyn o her.

Yn Nhlws F.A. Cymru bydd Llanberis gartref yn erbyn Cefn Albion o ardal Wrecsam. Mae nhw yn drydydd yng Nghyngrair y Gogledd Ddwyrain. Dwy gem galed i'r Darans.

Yng nghanol tabl Cynghrair Gwynedd mae'r Waunfawr, ond meant drwodd i drydedd rownd cwpan Ganolradd yr Arfordir. Llwyddwyd i guro Aberffraw o 2-1.



Troedio'r Uchelfannau.

Ychydig rifynnau'n ôl dangoswyd llun 'Blondin' modern yn cerdded ar raff weiren uwchben Chwarel Vivian. Ond nid camp unigryw mohoni. Cyd-ddigwyddiad hollol oedd i mi gyfarfod criw o bobl ifanc tra'n mynd am dro drwy hen chwarel Dinorwig. Roeddent ar eu ffordd i osod weiren uchel uwchben un o dyllau'r hen chwarel, ac yr oedd un ohonynt am ei cherdded! Gofynnais a fyddai'n bosib iddynt anfon lluniau o'r gamp i'r papur, ac er nad oeddwn yn ffyddiog iawn y byddai hynny'n digwydd, o fewn rhyw bythefnos cyrhaeddodd y lluniau hyn. Wnes i ddim sylwi ble roedd y cerddwr a'i weiren yn y llun cyntaf – ia sbiwch yn ofalus, ac mae'n anodd credu pa mor uchel ydi o! Yn wahanol i Flondin Chwarel Vivian oedd yn cerdded ar raff llac, cerdded ar raff uchel yw camp y Blondin diweddaraf – ac fe lwyddodd. (Golygydd).



Tim peldroed Llanrug yng Nghaerdydd

COFIWCH Y WEFAN

Wedi'r lawnsiad dyma gyfle gwych i glybiau chwaraeon y fro. Nid yn unig drwy luniau ond hefyd drwy ddangos clipiau fideo. Gôl arbennig, diwedd ras, cyflwyno tlws, darn o archif... Dyma gyfle gwych rwan i roi ar gof a chadw eiliad i'w thrysori.

I ddod o hyd i'r wefan cofiwch ecorwyddfa.co.uk

GWYBOD EI STWFF

Daeth dipyn o bluen i het ein colofnydd pysgota yn ddiweddar. Yn pysgota o'r cwch ar Lyn Dinas bachodd ddau eog – un yn ddeg pwys a'r llall yn bum pwys. A minnau wedi ei herian ers tro byd mai o Tesco yr oedd yn cael ei bysgod. Efallai fel y ddau eog efallai y dylsw'n i fod wedi cau fy ngheg hefyd.

ffrindia'

CYNLLUM CYFEILLIO I UNIGOLION DROS 50 OED
REFUNDING SCHEME FOR INDIVIDUALS OVER 50

ANGEN YN YR ARDAL YMA...
WANTED IN THIS AREA...

**GWIRFODDOLWYR
VOLUNTEERS**

Oes gennych chi awr neu ddwy i sbario i roi
cwmni i'r rhai sydd eu angen?
COSTAU TEITHIO A CHEFNOGAETH AR GAEL

Have you an hour or two to spare to provide
company to those who need it?
TRAVELING COSTS AND SUPPORT GIVEN

**(01286) 672626
(01341) 422575**

E: ffrindia@mantellgwynedd.com
www.mantellgwynedd.com

Chwaraeon

Enillydd Marathon Eryri - Alun Vaughan



Rhys James yn Hanner Marathon Caerdydd, mewn amser o 1:23:47

Hwb Nawdd i Athletwraig Ifanc Lleol



CADW'N HEINI

Ar noson lansio gwefan yr Eco yn Neuadd Bethel roedd gweithgaredd egniol arall yn cymryd lle. Yn y brif neuadd roedd 20 o ferched yn 'chwysu' yn sesiwn Egni. Hynny yw, clwb cadw'n heini. O'r rhan o'r gweithgaredd welais i roedd ymateb dda i arweiniad brwdfrydig Iona Roberts o Ddinas Dinlle. Mae'r merched yn cyfarfod bob nos Iau yn Neuadd Bethel o 8pm i 9pm. Y gost yw £5 y sesiwn. Mae'n ymddangos fod y sesiynau yma yn dod yn hynod boblogaidd ledled y sir erbyn hyn. Eto dyma weithgaredd sydd nid yn unig yn llesol i'r unigolyn, ond hefyd yn fodd o ddenu pentrefwyr at ei gilydd. A rhag ofn i chwi feddwl bod rhyw gymwysterau anghenrheidiol i ymuno, dywedodd un o'r aelodau wrthyf fod sesiynau Egni yn agored i " unrhyw oed, unrhyw siap ac unrhyw lefel o ffitrwydd" Ymlaen â'r chwysu.



Gwelir Anya yn derbyn ei sic nawdd gan Irfon ac Iwan Hughes.

Dathlodd London Garage Cyf, Cwm y Glo agoriad eu Canolfan MOT newydd, Arfon Garage, Clwt y Bont, Deiniolen, trwy gyhoeddi eu nawdd i athletwraig ifanc lleol, Anya Williams. Anya, o Lanrug, yw'r Pencampwr 60m (Dan Do), 100m a 200m Goledd Cymru, Pencampwr Rownd Derfynol Rhanbarth Gogledd Cymru yr Urdd, yn ogystal ac ennill dwy fedal efydd ym Mhencampwriaethau dan 13 a Dan 15 Cymru yn Abertawe. Cafodd ei pherfformiadau trawiadol eu cydnabod hefyd gan Gynghrair Sir Gaer a ddyfarnodd iddi hi y wobwr Perfformiad Benywaidd y gem ddwy waith. Ar ddiwedd mis Medi cafodd hefyd wobwr Merched dan 13 yng Ngemau Agored Menai. Mae ei champau wedi cael eu cydnabod gan berchennog Arfon Garage, Mr Ian Hughes, a ddywedodd 'Rydym yn llongyfarch Anya ar ei llwyddiant hyd yn hyn ac yn falch o fod yn gysylltiedig ag athletwraig dalentofg ifanc leol o'r fath. Rwyf yn siŵr y bydd ei gwaith caled yn ei gweld hi yn cyflawni ei thargedau athletig dros y blynnyddoedd i ddod.'